

Cyngor Sir y Fflint
Gwasanaethau Cymdeithasol



Adroddiad
Blynyddol
2024/25



a Blaenoriaethau 2025/26





Mae fersiwn Saesneg o'r adroddiad hwn ar gael.

Os hoffech chi gael copi o'r cyhoeddiad hwn yn eich iaith eich hun neu mewn fformat arall fel print bras, braille neu ar dâp, yna ffoniwch 01352 703020.

Cynnwys

Adran 1 - Cyflwyniad	3
Adran 2 - Crynodeb y Cyfarwyddwr	4
Adran 3 - Cyd-destun	8
• Data Cyd-destunol a Mesuryddion Perfformiad Cenedlaethol	8
• Arweinyddiaeth	10
• Gweithlu	12
• Adnoddau Ariannol	14
Adran 4 - Asesu Perfformiad	17
• Pobl	18
• Atal	24
• Partneriaeth ac Integreiddio	38
• Lles	42
Adran 5 - Gwybodaeth Arall	47
• Arolygon ac Adolygiadau	47
• Cwynion a Sylwadau	50
• Cyfeirio at Ffynonellau Eraill o Wybodaeth	52
Adran 6 - Atodiadau	53
• Rhestr Termiau	53
• Crynodeb o Flaenoriaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2025/26	57

Adran 1



Cyflwyniad

Caiff Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol ei baratoi dan ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, sydd eu dwy yn ei gwneud yn ofynnol yn statudol i'r Cyngor adrodd ar ei swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol yn flynyddol.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn canolbwyntio ar les, ac mae ein hadroddiad yn crynhoi'r prif bethau rydym yn eu gwneud yn Sir y Fflint i gefnogi ein trigolion mwyaf bregus. Mae'n disgrifio ein heriau, yn rhoi darlun i'n budd-ddeiliaid o'n perfformiad a sut rydym wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn nodi ein blaenoriaethau at y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r budd-ddeiliaid yn cynnwys pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, ein staff, aelodau etholedig, y cyhoedd, ein partneriaid, rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru. Mae ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn rhan annatod o'r hyn rydym yn ei wneud, ac mae'n dylanwadu ar ddatblygiad ein gwasanaethau a'n cynlluniau at y dyfodol.

Yn yr adroddiad, rydym yn asesu ein perfformiad yn erbyn pob un o'r pedwar maes yn y Fframwaith Gwella Perfformiad – Pobl, Atal, Partneriaeth ac Integreiddio, Lles, a'r wyth safon ansawdd o dan y pedwar maes hwn. Mae'r asesiad hwn yn cael ei gwblhau ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Phlant ac mae'n disgrifio sut mae'r awdurdod lleol wedi ceisio cyflawni'r safonau hyn drwy gydol y flwyddyn.

Ceir achosion lle mae'r gwaith a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â safonau ansawdd lluosog, ond manylir ar hyn yn y maes mwyaf priodol.

Adran 2



Craig Macleod

Prif Swyddog, Gwasanaethau Cymdeithasol

Crynodeb y Cyfarwyddwr

Croeso i Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2024/25, fy nghyntaf fel Prif Swyddog a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant Sir y Fflint wedi gweithio'n galed i gefnogi preswylwyr a'u gofalmwr, gan eu grymuso i gael rheolaeth dros eu bywydau, hyrwyddo annibyniaeth, a'u helpu nhw i fyw yn dda yn eu cymunedau.

Mae rhai o uchafbwyntiau 2024/25 yn cynnwys:

- Mae ein tîm **Taliadau Uniongyrchol** wedi datblygu meddalwedd mapio i helpu unigolion sy'n cael eu cefnogi i gysylltu, gan alluogi pobl i gyfuno cyllid a gwella canlyniadau ymhellach.
- Mae recriwtio **gofalmwr maeth** wedi bod yn weithredol, gyda phedwar o ofalmwr maeth cyffredinol newydd wedi'u cymeradwyo yn ogystal ag wyth o ofalmwr person cysylltiedig.
- Llwyddodd **Gwasanaeth y Blynyddoedd Cynnar a Theuluoedd** i sicrhau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru i gefnogi rhaglenni gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, gan wella'r llwybrau cymunedol rhwng gofal plant a'r ysgol.
- Trwy ehangu gofal plant **Dechrau'n Deg**, roedd 280 o blant yn gallu cael mynediad at sesiynau mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig. Mae hyfforddiant Stori'r Ymennydd wedi'i ddarparu i dros 100 o staff gan wella eu dealltwriaeth o

brofiadau niweidiol a chadarnhaol ar ddatblygiad plentyn a'r effeithiau mwy hirdymor. Mae'r cynllun peilot **Cefnogwyr Rhieni** wedi gwella mynediad teuluoedd at wybodaeth, gan wneud gwasanaethau yn fwy hygyrch.

- Mae ein **Tîm Dilyniant** wedi llwyddo i ennill Gwobr Acolâd Gofal Cymdeithasol Cymru 2025 yn y categori 'Gweithio i Egwyddorion Ymarfer yn Seiliedig ar Gryfderau'. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn dathlu eu gwaith rhagorol mewn grymuso unigolion i gyflawni'r hyn sydd wirioneddol yn bwysig iddynt. Llongyfarchiadau i'r tîm ac i bawb sy'n rhan o'r cyflawniad rhagorol hwn.
- Mae **Rhaglen Cyflogaeth â Chefnogaeth** Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd bellach ar gael ar draws Gogledd Cymru, gyda chymorth sy'n hygyrch trwy'r Cydlynnydd Llwybrau Cyflogaeth yn Nhîm Dilyniant Sir y Fflint.
- Mae ailgomisiynu ein **Gwasanaethau Gofalwyr** wedi'i gwblhau, gan wella gwasanaethau i ofalwyr. Mae NEWCIS wedi agor fangre newydd a fydd yn ein galluogi i nodi a chysylltu â gofalwyr eraill yn well.
- Mae **Meicro-Ofal** wedi tyfu gyda 23 o fusnesau newydd eleni, gan gefnogi gofal personol a lles i oddeutu 300 o bobl yn Sir y Fflint. Gyda 16 o ddarparwyr bellach wedi'u cofrestru i'w comisiynu gan Gyngor Sir y Fflint.

Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd da gyda'n prosiectau cyfalaf, yn cynnwys Cartref Gofal Preswyl Tŷ Croes Atti a Choed-Y-Ddraig, a fydd yn agor yn yr haf 2025. Bydd y cyfleusterau newydd hyn yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig o ansawdd uchel i drigolion Sir y Fflint.



Croes Atti (Ysgol Gymraeg), Oakenhalt, yw ein cyfleuster gofal plant Cymraeg newydd a'r bwriad yw y bydd yn agor ym mis Medi 2025. Rydym wedi gweithio'n agos â chydweithwyr addysg i ddatblygu cyfleuster gofal plant ac addysg, a fydd yn darparu 'rhodd' i blant, gan ddarparu profiad chwarae a dysgu gwych. Yn y Fflint, mae Ysgol Cornist wedi dechrau datblygu, gan ddarparu gofal plant y mae angen mawr amdano yn yr ardal a llwybrau i'r ysgol gyda gofal plant estynedig ar gael, y gofynnwyd amdano gan y rhieni.

Er ein bod wedi gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu ein gwasanaethau yn 2024/25, rwyf eisiau bod yn dryloyw am faint a graddfa'r heriau a wynebwyd ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r galw am wasanaethau'n cynyddu, nid yw cyllidebau'n ymestyn mor bell ag yr oeddent yn arfer gwneud, mae gofalwyr di-dâl a theuluoedd yn wynebu mwy o straen, ac mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn heriau enfawr ar draws Cymru. Yn lleol, mae cymorth gwleidyddol a chorfforaethol cadarn wedi bod i lobio am setliad cyllid teg ar gyfer Sir y Fflint sy'n cydnabod yr heriau demograffig cynyddol, effaith yr argyfwng costau byw, y gweithlu, pwysau chwyddiant, cymhlethdod cynyddol y galw, ac anghenion cynyddol plant ifanc a phobl ifanc ar ôl Covid, mewn perthynas â meysydd fel iaith a lleferydd, ymddygiadau ac anghenion cymorth.

Rhwng 2023/24 a 2024/25 roedd pwysau cyllidebol o £6.306 miliwn yn codi o'r cynnydd mewn galw, cymhlethdod yr angen a chost gofal. O'r pwysau cyllidebol o £6.306 miliwn, roedd 78.5% yn ymwneud â'r cynnydd mewn ffioedd gofal a gomisiynwyd ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Phlant i gefnogi ein darparwyr gofal annibynnol. Mae'n bwysig nodi hyd yn oed gyda'r pwysau, llwyddom i gadw ein pwyslais ar effeithlonrwydd ac roeddem yn gallu darparu arbedion o £1.272 miliwn.

Wrth edrych ymlaen, mae'r Cyngor wedi gwneud buddsoddiad ariannol pellach mewn gofal cymdeithasol i gydnabod y costau a'r galw cynyddol. Mae dros £10 miliwn o gyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu i gefnogi gofal cymdeithasol yn 2025/2026. Bydd dros hanner hyn yn ariannu'r cynnydd yn y ffioedd a wnaed i'r awdurdod lleol am gost y gofal yr ydym yn ei brynu gan y sector annibynnol. Mae hyn yn cynnwys gofal preswyl i oedolion a phlant, gwasanaethau dydd, cymorth i alluogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain a maethu annibynnol. Mae angen yr arian hwn i gynnal gwasanaethau presennol. Yn gadarnhaol, mae'r awdurdod lleol wedi dyrannu £3.5 miliwn ychwanegol i fodloni'r angen cynyddol am ofal a chymorth ar draws y gwasanaethau i bobl hŷn, oedolion ag anabledd ac i gefnogi plant a theuluoedd. Mae'r buddsoddiad ychwanegol hwn yn cydnabod y gwerth y mae'r awdurdod lleol yn ei roi ar gefnogi preswylwyr bregus. Fodd bynnag, fy asesiad yw bod setliadau cyllid canolog yn annhebygol o ddal i fyny ag anghenion demograffig lleol.

Ein blaenoriaeth ar gyfer 2025/2026 yw datblygu model cynaliadwy o ofal cymdeithasol i'n trigolion yn Sir y Fflint. Bydd hyn yn gofyn am fwy na'n hymdrech hyd yma i sicrhau trefniadau cydlynu gwasanaethau gwell a dod o hyd i fwy o arbedion effeithlonrwydd. Rydym wedi dechrau amrywiaeth o brosiectau sy'n dechrau ar daith i drawsnewid darpariaeth gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Mae ein pwyslais yn parhau i fod ar wella ansawdd gofal a chyflawni canlyniadau i unigolion, yn seiliedig ar y sgwrs 'beth sy'n bwysig', a sut allwn fynd i'r afael ag anghenion unigolion a theuluoedd gan adeiladu gwydnwch a chanolbwyntio ar les. Mae galluogi unigolion i wneud penderfyniadau gwybodus am ddatrysiadau posibl i'w sefyllfaoedd eu hunain yn ganolog i'r dull hwn.

Mae'r dull yn gofyn am bartneriaethau cryf gyda'n preswylwyr a'n cymunedau a fydd yn parhau i chwarae rôl ganolog mewn cefnogi pobl i fyw yn annibynnol ac i gysylltu â gwasanaethau yn seiliedig ar y gymuned, neu geisio gwybodaeth a all eu helpu nhw, aelod o'u teulu neu ffrind. Bydd gofal cymdeithasol statudol yn canolbwyntio ar gymorth ac ymyrraeth wedi'i dargedu i adeiladu gwydnwch ac annibyniaeth a bodloni anghenion preswylwyr sydd â'r anghenion gofal cymdeithasol mwyaf cymhleth na ellir eu bodloni trwy adnoddau eraill.

Mae trawsnewid digidol hefyd yn hanfodol ar gyfer dyfodol gofal cymdeithasol, o ran cefnogi ein gweithlu drwy ryddhau eu hamser o dasgau gweinyddol, a thrwy ymestyn offer digidol i wella gofal a chefnogi profiadau. Fel rhan o hyn, rydym yn gweithio ar draws Gogledd Cymru fel rhan o brosiect cenedlaethol i roi system TG newydd ar waith ar gyfer gofal cymdeithasol a fydd yn cael ei weithredu yn 2026.

Er bod yr her yn un sylweddol, rydym mewn sefyllfa dda iawn i drosglwyddo i fodel cynaliadwy o ofal cymdeithasol. Mae ein gweithlu angerddol, ymrwymedig a phroffesiynol yn arloesol ac ymrwymedig i ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o gefnogi lles ac annibyniaeth ein preswylwyr. Mae gennym hefyd bartneriaethau cadarn, cynhyrchiol a chydweithredol a byddwn yn parhau i weithio'n gadarnhaol â phartneriaid y sector gwirfoddol, statudol ac annibynnol i sicrhau dull cyfannol at ofal cymdeithasol a chymorth.

Mae'r daith hon, er yn un beichus, yn cynnig cyfleoedd gwych i ganolbwyntio ar arferion cadarnhaol sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n galluogi pobl i fyw bywydau annibynnol o ansawdd a derbyn cymorth gofal cymdeithasol yn union pan mae ei angen arnynt. Bydd ein model yn canolbwyntio ar:

Angerdd dros Ymarfer

Trwy 'sgyrsiau beth sy'n bwysig', byddwn yn cadw at egwyddorion ymarfer yn seiliedig ar gryfderau, wedi'i lywio gan yr awydd cyffredin i gael effaith gadarnhaol ar fywydau unigolion.

Cefnogi Annibyniaeth

Byddwn yn mabwysiadu dulliau a rhaglenni sydd wedi'u dylunio i rymuso unigolion a lleihau'r angen am gymorth statudol lle mae'n ddiogel ac yn briodol.

Gofal yn Nes at y Cartref

Byddwn yn cefnogi pobl o fewn eu cymuned, gan leihau'r angen am dderbyniadau i'r ysbyty a gwella ansawdd bywyd trwy ddarpariaeth leol.

Cymorth Digidol

Defnyddio technoleg i wella ansawdd, effeithlonrwydd a phersonoli gofal.

Marchnad Gynaliadwy

Byddwn yn talu pris teg am wasanaethau gofal sy'n gyfrifol yn amgylcheddol, yn economaidd ac yn gymdeithasol, gan ddarparu canlyniadau personol o ansawdd i fodloni anghenion a aseswyd.

Adran 3



Cyd-destun

Data Cyd-destunol a Mesuryddion Perfformiad Cenedlaethol 01 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025

Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

9,915 - Nifer y cysylltiadau newydd a dderbyniwyd gan y gwasanaethau statudol yn ystod y flwyddyn

7,221 - Nifer y cysylltiadau newydd hynny y darparwyd cyngor neu gymorth iddynt. (Mae'r ffigur hwn yn cynnwys 939 o gysylltiadau â gwasanaethau cymdeithasol statudol a arweiniodd at gyngor a chymorth gan ein gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol).

6,969 - Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

15% - Canran yr asesiadau lle'r aethpwyd ymlaen i lunio cynllun gofal a chymorth er mwyn cyflawni eu canlyniadau.

Ar ddiwrnod olaf y flwyddyn, roeddem yn helpu **1,072** o bobl dros 65 oed i fyw yn eu cartrefi a **649** o bobl hŷn mewn cartrefi gofal.

68% - Canran y bobl â phecyn cymorth yr adolygwyd eu cynllun gofal o fewn y terfynau amser.

265 - Nifer y bobl a gwblhaodd becyn ailalluogi yn ystod y flwyddyn.

1,855 - Nifer yr oedolion sy'n ofalwyr a gafodd eu hadnabod a'u hatgyfeirio at ein gwasanaethau gofalwyr.

640 - Nifer y bobl a gomisiynodd eu gwasanaethau eu hunain drwy daliad uniongyrchol.

1,279 - Nifer yr adroddiadau diogelu oedolion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

96% - Canran o'r rhain a ddatblygodd yn ymholiadau Adran 126 a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod.

335 - Nifer yr achosion sy'n aros am asesiad Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn Sir y Fflint.

Gwasanaethau Plant

14,898 - Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan y gwasanaethau statudol yn ystod y flwyddyn.

10,922 - Nifer y cysylltiadau hynny y darparwyd cyngor neu gymorth iddynt.

974 - Nifer y teuluoedd a gafodd wybodaeth a chymorth drwy'r Ganolfan Cymorth Cynnar.

1,753 - Nifer y teuluoedd a drosglwyddwyd i'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cymorth a Chyngor.

114 - Nifer y plant ar Gofrestr Amddiffyn Plant Sir y Fflint ar 31 Mawrth 2025.

97% a 98% - Canran y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a chynadleddau adolygu a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser.

9% - Canran y plant a ychwanegwyd at y gofrestr a gafodd eu hailgofrestru o fewn 12 mis o'u datgofrestru.

12.7 mis - Cyfartaledd amser yr arhosodd plant ar y gofrestr.

111 - Nifer y plant â chynllun gofal a chymorth lle'r oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu drwy daliad uniongyrchol ar 31 Mawrth 2025.

76 - Nifer y plant / pobl ifanc sydd wedi gadael gofal yn ystod y flwyddyn.

1,973 - Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

25% - Canran y rhai a aeth ymlaen i gael cynllun gofal a chymorth.

56% - Canran o'r rhai oedd ag anghenion y gellid eu diwallu drwy unrhyw fodd arall.

19% - Canran y rhai nad oedd ganddynt unrhyw anghenion cymwys.

271 - Nifer y plant a oedd yn derbyn gofal yn Sir y Fflint ar 31 Mawrth 2025.

Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth Wleidyddol

Mae Aelodau Etholedig yn cynrychioli trigolion Sir y Fflint ac yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o lywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys cytuno ar flaenoriaethau'r Cyngor a chymeradwyo polisiau i gyflawni gwelliant parhaus. Mae gan Gyngor Sir y Fflint 67 o Aelodau Etholedig sy'n cynrychioli buddiannau eu ward ac sy'n rhan o gyfarfodydd llawn y Cyngor i oruchwylio perfformiad y Cyngor. Mae'r Arweinydd, y Cynghorydd Dave Hughes, yn penodi un Aelod i gynrychioli pob maes portffolio fel Aelod Cabinet. Ar y cyd â'r Arweinydd, Dirprwy Arweinwyr, y Prif Weithredwr a Phrif Swyddogion, maent yn ffurfio Cabinet y Cyngor. Y Cynghorydd Christine Jones yw'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

Sut Rydym Ni'n Gwneud Penderfyniadau

Mae pob Aelod Cabinet yn cael ei gefnogi gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yw hwn. Cynhelir cyfarfodydd ar y cyd gyda'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Ieuencid i drafod gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n torri ar draws Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg.

Mae Arweinydd a Dirprwy Arweinwyr y Cyngor ac Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd ynghlwm â rhaglen waith y Gwasanaethau Cymdeithasol drwy Fwrdd Rhaglen y Gwasanaethau Cymdeithasol a chyfarfodydd y Tîm Rheoli.

Mae'r Prif Weithredwr yn arwain Swyddogion y Cyngor, wedi'i gefnogi gan y Prif Swyddogion ar gyfer pob portffolio. Mae gan Brif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol rôl statudol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu ei strwythur gweithredol, prosesau gwneud penderfyniadau a gweithdrefnau i sicrhau effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd.

Mae llywodraethu mewnol yn cael ei gynnal trwy archwiliadau sy'n cael eu monitro gan y Pwyllgor Archwilio, a all alw ar swyddogion i ddarparu tystiolaeth os bydd pryderon yn codi.




russell102 - stock.adobe.com



**Cynghorydd
Christine Jones**

Dirprwy Arweinydd
ac Aelod Cabinet
dros Wasanaethau
Cymdeithasol a
Llesiant.

Strwythur Reoli Gwasanaethau Cymdeithasol



Gweithlu

Crynodeb o'r Gweithlu

- Ar hyn o bryd, mae 1,172 o staff yn cael eu cyflogi o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir y Fflint. Mae hyn gyfystyr â 979 o swyddi cyfwerth â llawn amser.
- Mae 285 o'r staff yn cael eu cyflogi o fewn y Gwasanaethau Plant, 749 o fewn y Gwasanaethau Oedolion a 137 mewn Diogelu a Chomisiynu.
- Mae 41% o'n staff yn gweithio ar sail rhan amser.
- Merched yw'r mwyafrif o'r gweithlu, 86%.
- Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn rhychwantu ystod oedran eang. Yr ystod oedran drechaf yw 56-65 sy'n cyfateb i 28.9% o'r gweithlu.
- Mae 58.2% o'r gweithlu dros 45 oed.

Recriwtio, Cadw Staff a Throsiant

Mae ychydig dros 100 o staff wedi gadael yn ystod y flwyddyn, ond mae niferoedd cyffredinol y staff wedi aros yn gyson iawn, gyda gostyngiad o ddim ond tri yng nghyfanswm y niferoedd staffio ers dechrau'r flwyddyn.

Mae trosiant wedi gostwng yn sylweddol ers y flwyddyn ddiwethaf a rhagwelir iddo fod ychydig o dan 10%, o'i chymharu â 13.76% ar gyfer 2023-24.

Mae gennym rhai meysydd lle mae swyddi gwag yn anodd eu llenwi, ac rydym yn ymgymryd â mentrau recriwtio ac ymgyrchoedd marchnata rheolaidd i hysbysebu'r swyddi hyn. Fodd bynnag, mae swyddi gwag yn parhau mewn rhai meysydd, ac o ganlyniad, mae gennym weithwyr asiantaeth a darparwyr allanol sy'n ein galluogi ni i barhau i ddarparu gwasanaeth o lefel uchel.



Datblygiad Proffesiynol

Mae Tîm Datblygu'r Gweithlu Sir y Fflint yn cynnal safon uchel o gyfleoedd dysgu a datblygu, gan ddarparu cymorth wedi'i gynllunio ac ymatebol i fodloni anghenion hyfforddi'r gweithlu gofal cymdeithasol, ac yn cefnogi swyddogaethau statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Tîm Datblygu'r Gweithlu yn cefnogi dysgu cyn ac ôl-radd, dysgu galwedigaethol ac yn cynnig rhaglenni hyfforddiant i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus a dilyniant gyrfa i staff.

Staff Cefnogi

Mae rhaglen cymorth i weithwyr y Cyngor, 'VIVUP', ar gael ar-lein a dros y ffôn 24/7. Mae VIVUP yn rhoi cymorth i weithwyr gyda materion personol ac sy'n ymwneud â'r gwaith, yn ogystal â chymorth rheoli i ategu at bolisiau presennol. Rydym hefyd wedi

gweithio gyda Canopi i gynnig gwasanaeth hunan-atgyfeirio yn rhad ac am ddim sy'n cefnogi staff gofal cymdeithasol ac iechyd gyda chymorth iechyd meddwl.

Mae ein polisi gweithio hybrid yn galluogi trefniadau gweithio hyblyg ac ystwyth, i alluogi staff i gael cydbwysedd gwell rhwng gwaith a bywyd sydd, yn ei dro, yn cefnogi lles.

Mae arweinwyr yn hygyrch, yn hawdd mynd atynt, yn gefnogol, ac ar y cyfan, yn sicrhau bod ymarferwyr yn cael yr hyfforddiant a'r sgiliau cywir. Mae gan Sir y Fflint bolisi goruchwyllo cynhwysfawr, sy'n sicrhau bod ymarferwyr yn cael budd o oruchwyliaeth reolaidd. Mae'r polisi hwn yn hwyluso sgysiau cadarnhaol rhwng staff a'u rheolwyr, gyda gwerthusiadau blynyddol sy'n canolbwyntio'n gryf ar les.

Mae Tîm Datblygu'r Gweithlu yn cynnig gweithdy ar-lein awr o hyd i roi cyfleoedd i aelodau staff newydd y Gwasanaethau Cymdeithasol i gwrdd a dysgu am ein prosesau a'n ffyrdd o weithio. Rydym wedi datblygu llyfrynau cynefino cynhwysfawr i gefnogi aelodau o staff sy'n newydd i'r awdurdod/Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod tri mis cyntaf eu rôl, a hefyd i reolwyr sydd newydd eu penodi i'w tywys nhw wrth drosglwyddo i'w swyddi rheoli.

Meicro-Ofal

Mae Prosiect Meicro-Ofal Sir y Fflint yn ddull arloesol o gefnogi pobl neu fusnesau bach i ddarparu gwasanaethau gofal a lles yn yr ardal. Mae Meicro-Ofal wedi cryfhau'r farchnad gofal lleol drwy gynnig opsiwn gwahanol ar gyfer gofal a chymorth, a thrwy ddod â ffynhonnell newydd o weithwyr gofal i'r farchnad.

Adnoddau Ariannol

Mae'r gwasanaeth yn wynebu cynnydd mawr yn y galw ar gyfer 2024/25, gan arwain at orwariant sylweddol a ragwelir. Fel sawl awdurdod arall, rydym yn gweld cynnydd yn swm a chymhlethdod yr angen am wasanaeth. Mae'r galw hwn yn herio ein gallu i ymateb i gefnogi pobl ag anghenion mwy arferol, a gallu ariannol yr awdurdod lleol.

I grynhoi, ein sefyllfa ariannol yw:

	Cyllideb (net) 2024/25 £miliwn	Gwariant (net) 2024/25 £miliwn	Swm sy'n Wahanol (net) 2024/25 £miliwn
Gofal Cymdeithasol i Oedolion - Pobl Hŷn	34.812	37.546	2.734
Gofal Cymdeithasol i Oedolion - Oedolion Oedran Gweithio	43.791	45.067	1.276
Gwasanaethau Plant	12.934	14.898	1.965
Diogelu a Chomisiynu	2.031	1.426	-0.605
Cyfanswm Gwasanaethau Cymdeithasol	93.567	98.937	5.370


Rhwng 2023/24 a 2024/25 roedd cyfanswm y pwysau cyllidebol yn £6.306 miliwn a chafodd £1.272 miliwn o arbedion effeithlonrwydd eu gwneud. Mae'r pwysau yn bennaf wedi codi o'r cynnydd mewn galw, cymhlethdod yr angen a chost gofal. O'r pwysau cyllidebol o £6.306 miliwn, roedd 78.5% yn ymwneud â'r cynnydd mewn ffioedd gofal a gomisiynwyd ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Phlant i gefnogi ein darparwyr gofal annibynnol.





Galw ar y Gwasanaeth

Mae'r pwysau demograffig wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn ceisiadau gwasanaeth yng nghyd-destun gweithlu cyfyngedig ac argaeledd gwasanaeth. Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth prydlon ac ymatebol i bobl sydd ei angen fwyaf. Fodd bynnag, mae'r galw am y gwasanaeth yn fwy nag ein capasiti. Gwyddom os oes yn rhaid i bobl aros am ofal a chymorth gall eu cyflwr waethygu, gan arwain at anghenion gofal mwy drud. Mewn ysbytai, gwyddom hefyd y gall cleifion nad ydynt yn cael eu rhyddhau pan maent yn feddygol iach, waethygu a bod angen cymorth mwy dwys, hirdymor. Mae Sir y Fflint yn unigryw oherwydd mae ein preswylwyr yn defnyddio tri ysbyty y tu allan i'r sir, gan ledaenu ein hadnoddau gofal cymdeithasol a chreu galw ychwanegol o ran gwasanaethu'r tri lleoliad gyda phrosesau a modelau gweithredu gwahanol. Mae'r graffiau canlynol yn dangos y cynnydd yn y galw am wasanaeth i bobl hŷn:

Gofal Cartref



Gofal Preswyl Hirdymor (HD) i Bobl Hŷn (PH)



Cyllid Ychwanegol 2025/2026

Fel rhan o'r gyllideb ar gyfer 2025/2026 mae'r awdurdod lleol wedi nodi buddsoddiad ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol o ystyried lefel y galw am wasanaeth. Mae hyn o fewn cyd-destun cylchred cyllideb heriol iawn gyda setliad ariannu cymharol isel, a'r penderfyniad anodd i godi treth y Cyngor i ddarparu'r isadeiledd a chymorth sydd ei angen ar gyfer ein preswylwyr.

Mae cyllideb 2025/26 yn cynnwys cynnydd o 7.44% ar gyfer gofal cymdeithasol i fodloni amcangyfrifon y galw presennol a chostau ychwanegol gofal a gomisiynwyd. Yn ogystal â hyn, mae £3.5 miliwn wedi'i ddyrannu i gefnogi pobl hŷn, oedolion oedran gweithio a gwasanaethau plant. Er ein bod wedi ychwanegu mwy o gronfeydd i'r gyllideb i dalu am y costau hyn, mae yno dal risg y gall y baich ariannol i fodloni'r galw cynyddol fod yn fwy na'n hadnoddau.



Adran 4



Asesu Perfformiad

Mae'r adran hon yn gofyn i awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r wyth o safonau ansawdd o dan bedair adran. Mae'r asesiad hwn yn cael ei gwblhau ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Phlant ac mae'n disgrifio sut mae'r awdurdod lleol wedi ceisio cyflawni'r safonau hyn drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r dull hunan-asesu yn gofyn i awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r pedwar cwestiwn canlynol:

- Beth ydym ni'n ei wybod am ansawdd ac effaith yr hyn yr ydym yn ei wneud?
- Sut ydyn ni'n gwybod? E.e. pa dystiolaeth o ymchwil, ymgysylltu a'r metrigau rydym yn eu defnyddio i lywio'r asesiad hwn?
- Beth ydym ni'n ei wneud yn dda a sut gallwn ni wella? Beth yw ein blaenoriaeth ar gyfer gwelliant dros y flwyddyn nesaf yn arbennig?
- Pa gynnydd a wnaed gennym ar y meysydd i'w gwella a nodwyd yn adroddiad y llynedd? Pa wahaniaeth wnaethom ni?

Pobl

Y Safonau Ansawdd

- Mae pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â dewis, llais a rheolaeth dros eu bywydau ac maent yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.
- Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu medrus, cymwys ac sy'n derbyn cefnogaeth yn gweithio tuag at weledigaeth a rennir.

Y Siarter Rhianta Corfforaethol

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i amcanion ac egwyddorion Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r Siarter yn rhoi cyfrifoldeb ar gyrff allweddol y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd wedi derbyn gofal yn derbyn y gefnogaeth ac yn gallu cael mynediad at wasanaethau heb gyfyngiadau o ystyried eu profiadau bywyd.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo'n llwyr i'r Siarter, i adnewyddu ei addewid ac i'w sicrhwydd i'n pobl ifanc o ran cyflawni'r rhwymedigaethau hyn. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i gynhyrchu a hyrwyddo'r strategaeth newydd gyda gweithrediad llawn yn yr hydref 2025.

Taliadau Uniongyrchol - Datblygiadau Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol

Mae Cyngor Sir y Fflint yn parhau i gyfrannu'n weithredol at ddatblygiadau polisi taliadau uniongyrchol yng Nghymru, gan gefnogi a dylanwadu ar ddyluniad a datblygiad cynlluniau taliadau uniongyrchol ar draws Cymru a Lloegr.



Mae'r Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol yn parhau i ddatblygu ei wasanaethau lleol mewn ymateb i gyfrifoldebau statudol ac fe'i cydnabyddir fel enghraifft flaenllaw yng Nghymru. Mae'r tîm Taliadau Uniongyrchol wedi datblygu meddalwedd mapio i helpu unigolion sy'n cael eu cefnogi i gysylltu, lleihau cymorth unigol, gwella perthnasau a chreu buddion ariannol. Mae'r dull hwn yn galluogi pobl i gyfuno cyllid, gwella canlyniadau, cynyddu effeithlonrwydd, atal dirywiad ac adeiladu gwydnwch.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn datblygu'r gweithlu o gynorthwyr personol yn lleol. Bob wythnos, mae cynorthwyr personol yn darparu oddeutu 4,000 o oriau cymorth, gan gynnig cymorth sy'n canolbwyntio'n fawr ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar berthynas gyda llawer o ganlyniadau cadarnhaol.

Mae datblygu adnoddau taliadau uniongyrchol yn parhau, sydd ar gael i awdurdodau lleol eraill y DU i'w ddefnyddio. Mae'r Porth Recriwtio Cynorthwyr Personol, sy'n unigryw i Gymru, yn cael ei ymestyn i awdurdodau eraill ac mae cymeradwyaeth wedi'i roi i Gyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer i fabwysiadu ffilm wedi'i animeiddio Sir y Fflint yn gyfnewid am fersiwn Iaith Arwyddion Prydain.

Mae Rheolwr y Tîm Taliadau Uniongyrchol wedi cael ei ail-ethol fel Is-Gadeirydd Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru Gyfan ac mae'n parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd. Bydd y ddeddfwriaeth newydd, a ddisgwyllir ar ddechrau 2026, yn galluogi i unigolion sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol drosglwyddo gofal hunangyfeiriedig i gyllid iechyd, gan wella'r amgylchiadau i unigolion ac awdurdodau lleol ar draws Cymru. Mae cymorth hefyd yn parhau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn eu trosglwyddiad i daliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd, gan gynnwys newidiadau sylweddol a phrynu Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint ar sail pan fo'r angen, gan greu cyfleoedd refeniw ar gyfer y dyfodol.



Astudiaeth Achos – Taliadau Uniongyrchol

Sut mae taliadau uniongyrchol wedi trawsnewid gofal i fy mam

Pan gafodd fy mam strôc ym mis Mawrth 2023, daeth yn amlwg y byddai hi angen gofal personol os byddai hi eisiau gallu byw yn gyfforddus gartref. Mae taliadau uniongyrchol wedi bod yn wych o ran ein galluogi ni i gyflawni hyn. Gyda'r cronfeydd wedi'u dyrannu, rwyf wedi gallu cyflogi a rheoli tîm o bedwar cynorthwy-ydd personol, sydd i gyd wedi'u dewis yn benodol gennyf fi er mwyn bodloni anghenion mam. Nid oes yn rhaid i gynorthwyr personol gael profiad o ofalu nac unrhyw gymwysterau yn ymwneud â gofal; fodd bynnag, maent yn derbyn chwe awr o hyfforddiant ar-lein â thâl. Cafodd tri o'r pedwar cynorthwy-ydd personol eu hargymell gan ffrindiau, a chafodd un arall ei gyfweld a'i gyflogi drwy hysbyseb.

I ddechrau, roedd y syniad o ddod yn gyflogwr yn teimlo'n llethol, ond gyda chymorth ac arweiniad yr adran Taliadau Uniongyrchol, mae wedi bod yn weddol syml. Bellach rydym wedi sefydlu trefn ddyddiol esmwyth, ac mae cynorthwyr personol mam wedi dod yn fwy na dim ond gofawyr, bellach maent yn teimlo'n rhan o'r teulu.

Mae'r gofal wedi'i deilwra y mae taliadau uniongyrchol wedi galluogi i fy mam ei dderbyn wedi gwneud cymaint o wahaniaeth, nid iddi hi'n unig, ond i minnau hefyd fel ei phrif ofalwr. Mae wedi rhoi'r cyfle iddi aros yn ei chartref ei hun, wedi'i hamgylchynu gan drefnau dyddiol ac wynebaw cyfarwydd.

I gael mwy o wybodaeth am daliadau uniongyrchol, [cliciwch yma](#).

Mwy na Geiriau

Fel awdurdod lleol, rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg er lles cenedlaethau heddiw a'r dyfodol. Mae darparu gwasanaethau yn gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg i'n trigolion mwyaf bregus yn fwy na ddim ond mater o iaith; mae'n meithrin ymdeimlad o berthyn, cysylltiad ac ymddiriedaeth.

Drwy ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg, rydym yn sicrhau bod trigolion yn teimlo'n gyfforddus a bod pobl yn eu deall. Mae'r dull hwn nid yn unig yn anrhydeddu treftadaeth ddiwylliannol y gymuned sy'n siarad Cymraeg, ond mae hefyd yn cryfhau cydlyniant cymunedol a chynhwysiant.

Drwy gydol y flwyddyn mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn parhau i ymweld â chartrefi gofal a chyfleusterau gofal ychwanegol i ganu a pherfformio i breswylwyr yn Gymraeg. Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi gyda nifer o weithgareddau ar draws y gwasanaeth, fel cwis am bopeth Cymraeg yng nghyfleuster Gofal Ychwanegol Plas Yr Ywen.

Fel cyflogwr, cynhaliom brosiect i sicrhau bod pob gweithiwr yn cwblhau eu Hasesiad Sgiliau Iaith. Rydym yn falch o ddweud bod holl staff y Gwasanaethau Cymdeithasol bellach wedi cwblhau eu Hasesiad Sgiliau Cymraeg ac mae staff ar lefel sgiliau Cymraeg 0 yn cael cynnig sesiwn hyfforddiant ar gyflwyniad i'r Gymraeg i symud eu lefel sgiliau i lefel 1. Rydym hefyd wedi lansio Strategaeth Sgiliau Cymraeg Cyngor Sir y Fflint. Fel rhan o'r strategaeth, rydym wedi lansio [Hwb Cymraeg](#), i gefnogi dinasyddion a staff i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau bob dydd. Mae'r strategaeth hefyd wedi darparu cyfle i'r Cyngor ymgysylltu â staff fel Cefnogwyr y Gymraeg ym mhob maes gwasanaeth.

Mae Tîm Datblygu'r Gweithlu yn parhau i gefnogi fframwaith



strategol 'Mwy na Geiriau' drwy ddarparu hyfforddiant ac adnoddau dwyieithog yn ôl yr angen. Mae ein deunyddiau hyfforddi ar gael yn y ddwy iaith, ac rydym yn mynd ati i hyrwyddo'r Cynnig Gweithredol.

Mae'r Cynnig Gweithredol a 'Mwy na Geiriau' yn cael eu hintegreiddio yn ein cyfleoedd hyfforddi, cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol, ac yn cael eu mewnosod mewn cyfarfodydd gyda dysgwyr, yn ogystal ag yn ystod arsylwadau a myfyrdodau ymarfer. Rydym yn cynnig amrywiaeth o adnoddau i helpu dysgwyr i ddeall y Gymraeg a diwylliant Cymru.

Datblygu'r Gweithlu

Mae'r tîm yn parhau i gynnal safon uchel o gyfleoedd hyfforddiant a datblygu i'n gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofalywyr, y sector gwirfoddol a'r sector annibynnol. Drwy gydol y flwyddyn hon, rydym yn parhau i ddarparu ein cyrsiau hyfforddi trwy ddarparwyr mewnol ac allanol, ac mae anghenion ein dysgwyr yn cael eu cefnogi drwy ddarparu opsiynau dysgu hyblyg.

Rydym yn parhau i ymrwmo i weithio â phrifysgolion a BIPBC i ddatblygu a chynnal llif cyson o gyfleoedd ar gyfer staff therapi galwedigaethol, ac mae ein Tîm Asesu Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn parhau i weithio gyda Choleg Cambria, City & Guilds a CBAC.

Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, llwyddodd y tîm i gyflawni'r canlynol:

- Darparwyd **383** o gyrsiau gyda 4,523 o leodedd.
- Mynychodd **3,612** o bobl, gyda **17.5%** yn dod o'r Sector Annibynnol a'r Trydydd Sector.
- Derbyniwyd **1,578** o ffurflenni gwerthuso.
- Dywedodd **91%** o'r cyfranogwyr bod ganddynt well dealltwriaeth.
- Llwyddodd **98%** i fodloni eu hamcanion dysgu personol.
- Llwyddodd **14** o ddysgwyr i gwblhau'r cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol Craidd.
- Llwyddodd **31** o ddysgwyr i gwblhau'r cymhwyster Craidd Lefel 2, Ymarfer Lefel 2, neu Ymarfer Lefel 3.
- Cefnogwyd **48** o hyfforddeion gwaith cymdeithasol (Prifysgol Wrecsam a'r Brifysgol Agored).
- Mae **5** aelod o staff yn ymgymryd â'r hyfforddieiaeth Therapi Galwedigaethol (mae staff nad ydynt yn gymwys ar gyfer

ymgeisio am yr hyfforddieiaeth yn cael eu cefnogi i ymgeisio am gwrs sylfaen gyda'r brifysgol).

- Mynychodd **8** o Weithwyr Cymdeithasol sydd newydd gymhwysu ein rhaglen cynefino gynhwysfawr a byddant yn mynd ymlaen i gael eu cefnogi i ymgymryd â'r Dyfarniad Cydgrynhoi.
- Mae **2** aelod o staff yn dilyn y cyrsiau Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy a Chyn Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy.
- Mae **6** aelod o staff yn cyflawni'r Wobr Addysgwr Ymarfer.

Gweithredu Safonau Diogelu Cymru Gyfan

Rydym yn cefnogi Safonau Diogelu Cymru Gyfan drwy ddarparu hyfforddiant sy'n cyd-fynd â grwpiau cymwyseddau'r fframwaith cenedlaethol. Mae gennym raglenni ar waith ar gyfer Grwpiau A a B, gydag adnoddau newydd gan Ofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi darpariaeth Grŵp B a chynlluniau i ddatblygu hyfforddiant Grŵp C. Rydym yn cydweithio â'n partneriaid addysg a chydweithwyr Cyngor Wrecsam i alinio cynnwys a darpariaeth ein cwrs ar gyfer hyfforddiant Grŵp B yn y dyfodol, gan sicrhau gwell ansawdd a chysondeb.

Mae'r Tîm Datblygu Gofal Plant wedi darparu hyfforddiant Grŵp C gyda chyflenwr allanol ac wedi bodloni gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru i ddarparwyr gofal plant gael eu hyfforddi. Roedd hwn yn gyrhaeddiad arbennig a derbyniodd ganlyniadau gwerthuso ardderchog am y profiad dysgu a'r wybodaeth a gafwyd. Bydd hyn yn cefnogi diogelwch plant sy'n mynychu lleoliadau gofal plant ac yn helpu darparwyr gofal plant i fod yn ymwybodol o'u gofynion wrth ddarparu gwybodaeth i rieni.

Cefnogi Anghenion Hyfforddiant a Nodwyd trwy Adolygiadau ac Archwiliadau

Rydym yn cefnogi'r gwaith o roi hyfforddiant a gwybodaeth ar waith drwy'r broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) ac Arolygiadau AGC. Mae ein gweithdai ymarfer, a ddatblygwyd yn fewnol, yn cefnogi datblygiadau ymarfer a blaenoriaethau lleol/rhanbarthol. Mae'r gweithdai hyn yn helpu ein timau gwaith cymdeithasol i integreiddio dysgu o hyfforddiant, adolygiadau, ac Arolygiadau AGC i brosesau mewnol ac ymarfer dyddiol. Mae un aelod tîm bellach yn Aelod o'r Panel, ac mae'r Rheolwr yn Adolygwr hyfforddedig.



Cefnogi'r Strategaeth Ddigidol

Rydym yn parhau i gefnogi'r Strategaeth Ddigidol drwy wella sgiliau digidol ein gweithlu. Gan gydweithio â Chymunedau Digidol Cymru a [Cwmpas](#), rydym yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant digidol pwrpasol ac yn hyrwyddo sesiynau Cefnogwyr Digidol yn rheolaidd. Yn ogystal â hyn, mae gennym gynllun benthyg gliniadur i staff sy'n dilyn cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cydweithio Rhanbarthol

Mae ein tîm yn cymryd rhan mewn nifer o grwpiau rhanbarthol, yn cynnwys Grŵp Swyddog Hyfforddi Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru, Grŵp Hyfforddiant a Datblygu Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru a Grŵp Gweithlu Dementia Gogledd Cymru. Maent hefyd yn cyfarfod yn is-ranbarthol gyda phartneriaid BIPBC.

Mae'r Rheolwr Tîm yn mynychu cyfarfodydd y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd gyda BIPBC a phartneriaid eraill yr awdurdod lleol ac yn aelod o Fwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol Gogledd Cymru a Grŵp Dysgu a Datblygu y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol cenedlaethol. Mae'r Tîm Asesu a'r Cydlynnydd Dysgu Ymarfer yn mynychu cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol ar gymwysterau a gwaith cymdeithasol gyda darparwyr Addysg Uwch.

Yr Uwch Reolwr ar gyfer Diogelu a Chomisiynu yw Dirprwy Gadeirydd Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru, mae'n aelod o Grŵp Arweinyddiaeth Gweithlu Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac mae'n eistedd ar Grŵp Strategol Gradd Gwaith Cymdeithasol a Therapi Galwedigaethol Prifysgol Wrecsam. Helpu i siapio dyfodol y ddwy radd a sicrhau bod adborth gan ymarferwyr a'r awdurdod lleol yn cael ei fwydo i broses gwneud penderfyniadau'r Brifysgol.

Gofalwn Cymru

Gofalwn
.cymru

WeCare
.wales

Rydym yn parhau i gefnogi'r Ymgyrch [Gofalwn](#) a'r ymdrechion i recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol. Mae gwybodaeth am yr ymgyrch wedi'i gynnwys yn ein Hasesiad o Anghenion Hyfforddiant blynyddol i helpu i'w hyrwyddo. Mewn partneriaeth â Choleg Cambria, rydym yn cynnig lleoliadau byr i fyfyrwyr sy'n eu hail flwyddyn o'r cymhwyster lechyd a Gofal Cymdeithasol, gan ddarparu profiad ymarferol yn ein lleoliadau oedolion a'r blynyddoedd cynnar ac yn eu hannog i ddilyn rolau yn y sector yn y dyfodol.

Blaenoriaethau 2025/26

- Cyflwyno ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau gyda chefnogwyr mentoriaid ymarfer i gefnogi ein dull cydweithredol o weithio gyda phobl.
- Canolbwyntio ar recriwtio, datblygu, cadw a chynllunio olyniaeth ar gyfer ein gweithlu.
- Darparu ein cynlluniau i fod yn 'ddigidol yn ddiofyn' a cheisio dileu systemau papur a gwella sgiliau digidol y gweithlu.
- Ymchwilio i sut all Deallusrwydd Artiffisial gefnogi ymarfer ac ategu gofal a chymorth.
- Datblygu'r system gwybodaeth i gleientiaid Mosaic.



Atal

Y Safonau Ansawdd

- Mae'r angen am ofal a chefnogaeth wedi'i leihau a'r cynnydd o ran angen wedi'i atal, wrth sicrhau bod y canlyniadau gorau yn cael eu cyflawni i bobl.
- Mae cadernid o fewn ein cymunedau yn cael ei hybu ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy gefnogi pobl sydd angen gofal a/neu gefnogaeth, gan gynnwys gofalywyr, i ddysgu a chyfrannu at gymdeithas.

Dileu Elw o Ofalu am Blant sy'n Derbyn Gofal

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu rhaglen ar gyfer diwygio gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn radical. Nod y polisi yw sicrhau nad yw arian y cyhoedd sy'n cael ei fuddsoddi mewn llety i blant sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn arwain at greu elw i unigolion neu gyfranddalwyr, ond yn hytrach bod unrhyw arian dros ben yn cael ei ail-fuddsoddi i wasanaethau plant i ddarparu canlyniadau gwell, gwelliannau gwasanaeth a datblygiad proffesiynol pellach. Strategaeth Llywodraeth Cymru yw ailgydbwysu'r farchnad fel bod y dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal heb eu contractio i gwmnïau er-elw ac yn parhau gyda ddarparwyr y sector cyhoeddus neu ddarparwyr nid-er-elw. Mae'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) newydd yn gofyn bod:

- Darparwyr annibynnol yn dangos statws nid-er-elw, yn seiliedig ar ddiffiniad newydd a ddiffiniwyd ymlaen llaw o ddielw, erbyn 1 Ebrill 2026.

- Bydd unrhyw ddarparwyr "er-elw" presennol angen trosglwyddo i, a chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, fel ddarparwr nid-er-elw erbyn 1 Ebrill 2030.

Mae rhaglen Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd ag uchelgais Sir y Fflint i gael llai o blant mewn gofal, ac mae amrywiaeth o fentrau wedi'u cymryd i gefnogi gwydnwch teuluoedd i atal plant rhag mynd i'r system gofal, lle bo hynny'n ddiogel ac yn briodol. Mae'r rhain yn cynnwys datblygiad:

- Y Safon Therapi Aml-systemig sy'n darparu gwasanaeth ar ffiniau gofal, gan gynnig cymorth 24/7 i rieni a gofalywyr fel rhan o raglen ddwys 6 mis i wella gallu a sgiliau magu plant.
- Model Cynhadledd Grŵp Teulu sy'n dod ag aelodau teulu at ei gilydd i'w galluogi nhw i nodi eu dulliau eu hunain o gefnogi eu plant, yn aml yn tynnu rhwydweithiau teulu a ffrindiau ehangach i mewn, gan ddileu'r angen am ymyrraeth statudol.
- Eiriolaeth rhieni sy'n cefnogi rhieni i gael mynediad at yr atebion amlasiantaeth sydd eu hangen arnynt i'w galluogi i gefnogi eu plant yn ddiogel.
- Model ymarfer yn seiliedig ar gryfderau, wedi'i arwain gan Ofal Cymdeithasol Cymru, sy'n adeiladu ar gryfderau teuluol ac yn galluogi rheoli risg gadarnhaol gymesur o ran cadw plant yn eu rhwydwaith teuluol.
- MST-CAN (Camdriniaeth ac Esgeulustod yn ystod Plentyndod) sy'n cefnogi plant a theuluoedd sy'n profi esgeulustod a chamdriniaeth, gan weithio'n gadarnhaol â rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau a/neu sydd ag anghenion iechyd meddwl, fel eu bod yn gallu gofalu am eu plant yn ddiogel.

Y canlyniad yw bod cyfradd cymharol Sir y Fflint o blant sy'n derbyn gofal yn isel o'i chymharu â chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bod gan y rheiny sy'n mynd i'r system ofal anghenion cymhleth yn aml ac efallai bod angen lleoliadau preswyl a maethu mwy arbenigol arnynt. Yn genedlaethol, mae cost gofal preswyl wedi codi o 300% dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae'r gost ariannol i'r awdurdod lleol yn anghynladwy ac yn cynyddu blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae prosesau ar waith i sicrhau bod trosolwg rheoli a llywodraethu cadarn ar waith pan fydd angen lleoliad y tu allan i'r sir. Fodd bynnag, nid yw cynnal y sefyllfa bresennol yn opsiwn hyfyw. Mae gennym raglen uchelgeisiol i ddatblygu ein gofal preswyl ein hunain ac ymestyn maethu mewnol. Fodd bynnag, nid ydym yn ceisio dyblygu'r model presennol o fod yn wasanaeth 'a gomisiynwyd' i fod yn un a ddarparwyd 'yn fewnol'. Ni fyddai hyn yn cyflawni'r canlyniadau gorau i blant sy'n derbyn gofal nac yn fforddiadwy o ystyried costau uchel darparu gofal preswyl mewnol.

Wedi sefydlu systemau effeithiol i gefnogi plant a theuluoedd ar ffiniau gofal, ein bwriad rŵan yw canolbwyntio ar leihau nifer y plant sy'n cael eu cefnogi trwy drefniadau y tu allan i'r sir. Ein dull yw datblygu trefniadau sy'n: bodloni anghenion y plentyn yn well, yn sicrhau canlyniadau gwell, yn fwy effeithiol o ran cost ac yn lleihau nifer cyffredinol y darpariaethau preswyl y byddai angen i'r awdurdod lleol eu datblygu, i symud o fod yn dibynnu ar y farchnad 'er-elw'.

Rydym wedi nodi cwmni lleol sy'n darparu adnoddau arbenigol i weithio gydag awdurdodau lleol drwy ddarparu cymorth therapiwtig dwys i blant i'w galluogi nhw i gamu lawr yn ddiogel o leoliadau preswyl a maethu cost uchel. Mae'r gwaith hwn yn eistedd ochr yn



ochr â rhaglen bwrpasol i nodi a chefnogi darpar ofalwyr i blant. Byddwn yn gweithio ar y cyd gyda'r cwmni ac i ddechrau rydym wedi nodi 21 o blant sy'n derbyn gofal a all gael budd o'r prosiect hwn.

**maethu
cymru**

Sir y Fflint

**foster
wales**

Flintshire



Maethu

Mae Cyngor Sir y Fflint yn parhau i dyfu ei wasanaeth maethu mewnol i gefnogi mwy o blant mewn gofal. Yn 2024/25, cymeradwywyd pedwar o ofalwyr cyffredinol newydd, gan ddarparu lleoliadau i chwech o blant a phobl ifanc. O ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth a ddarparwyd gan y cynllun Mockingbird, bu i dri o ofalwyr maeth cyffredinol presennol ehangu eu cymeradwyaeth i ddarparu tri lleoliad maethu arall, gan alluogi i frodyr a chwiorydd aros gyda'i gilydd ac o fewn yr ardal leol.

Ar hyn o bryd mae pedwar asesiad cyffredinol ar waith a bu i chwe theulu arall sy'n ymgeisio gwblhau eu hyfforddiant sgiliau i faethu ym mis Mawrth 2025, a bydd eu hasesiadau yn dechrau canol mis Ebrill.

Mae ymdrechion marchnata ar gyfer gofalwyr maeth cyffredinol yn parhau i fod yn weithredol, mewn partneriaeth â Maethu Cymru. Nod yr ymgyrch presennol, a gafodd ei rannu gan Radio Glannau Dyfrdwy, yw cadw plant sy'n derbyn gofal yn lleol a chodi ymwybyddiaeth o fil 'nid er elw' Llywodraeth Cymru, gan gyrraedd oddeutu 12,000 o bobl. Mae'r strategaeth cadw yn canolbwyntio ar les gofalwyr maeth a'r plant y maent yn gofalu amdanynt, gyda chalendr o weithgareddau wedi'i drefnu drwy gydol y flwyddyn.

Yn ogystal â hyn, mae'r tîm maethu wedi cwblhau 41 o asesiadau hyfywedd ar ofalwyr teulu a ffrindiau, lle bu i 16 ohonynt arwain at gymeradwyaeth gofal maeth dros dro, gyda 8 unigolyn cysylltiedig yn datblygu i gymeradwyaeth gofalwr maeth cysylltiedig llawn, gan gadw'r plentyn/plant gyda gofalwyr y maent yn eu hadnabod eisoes. Bu i'r 8 arall dan sylw un ai gael Gorchymyn Cyfreithiol ar y plentyn/plant dan sylw, neu nid oedd angen datblygu eu gofal i gymeradwyaeth gofalwr maeth llawn - er enghraifft cafodd y plentyn ei adsefydlu yn ôl i ofal ei riant/gwarcheidwad.

Mockingbird

Mae Mockingbird yn fodel gofal maeth unigryw sy'n dod â gofalyr maeth ynghyd mewn canolbwynt canolog sy'n darparu cymorth meithringar i'r teulu cyfan. Ym mis Chwefror 2025, llwyddodd y cynllun i gyrraedd carreg milltir newydd gan ddathlu 5 mlynedd ers ei sefydlu gan drefnu parti i holl deuluoedd y canolbwynt.

I gael mwy o wybodaeth am Faethu, [cliciwch yma](#).

Gwasanaeth Gwarcheidiaeth Arbennig

Mae'r gwasanaeth Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig wedi bod yn rhan weithredol o asesu dewisiadau sefydlogrwydd i blant o gychwyn cyntaf cyfranogiad y Gwasanaethau Plant. Yn 2024/25, cafodd 18 o blant Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig ar draws 12 o geisiadau, gyda 10 o'r plant hyn yn rhai a oedd wedi 'Derbyn Gofal' yn flaenorol. Cafodd wyth teulu eu hatgyfeirio at y gwasanaeth Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn dilyn cyfranogiad cychwynnol gan y Tîm Cyswllt Cyntaf Plant neu'r Canolbwynt Cymorth Cynnar, gan atal y plant hyn rhag dod yn blant sy'n 'Derbyn Gofal'. Mae hyn yn welliant sylweddol ers 2019. Bu i'r gwasanaeth hefyd gefnogi nifer o aelwydydd gyda Gorchymynion Gwarcheidiaeth Arbennig a roddwyd mewn ardaloedd eraill, gan gwblhau pedwar ailasesiad o gynlluniau cefnogi a throsglwyddo dau achos i awdurdodau lleol eraill.

Rydym yn llwyddo i leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn Sir y Fflint. Mae ein gwasanaeth cymorth yn brysur, gan roi cyngor ac arweiniad trwy fewnflwch canolog. Mae ein cwrs pedair wythnos newydd "Meithrin Ymlyniadau a Sgiliau i Ofalu" wedi gweld ymgysylltiad sylweddol, ac mae presenoldeb yn ein grwpiau cefnogi wedi gwella.

Wrth symud ymlaen, er ein bod wedi cwrdd â Thimau Dechrau'n Deg ac Ymwelwyr Iechyd i rannu gwybodaeth gywir am ein gwelliannau i'r gwasanaeth, gall cwrdd â gweithwyr proffesiynol ehangach wella'r

mockingbird 5 year anniversary party



gwasanaeth ymhellach. Byddai cyllid ar gyfer cymorth therapiwtig yn cyflwyno budd pellach i blant mewn teuluoedd Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig ac mae'r drafodaeth barhaus ynghylch cael polisi dim anfantais i'r holl awdurdodau lleol yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Am fwy o wybodaeth am y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig [cliciwch yma](#).

Y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Datblygiad Gofal Plant a Rhaglenni Cyfalaf



**Gwasanaeth Blynyddoedd
Cynnar a'r Teulu**

**Early Years and
Family Service**

Am y chweched flynedd yn olynol, mae Gwasanaeth y Blynyddoedd Cynnar a Theuluoedd Sir y Fflint wedi gwneud cais llwyddiannus am gyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru. Pwrpas y cyllid yw cefnogi darpariaeth y rhaglen gyfalaf gofal plant a'r blynyddoedd cynnar. Mae hyn wedi galluogi ehangiad pellach o'r sector gofal plant trwy gyfres o raglenni graddol. Cafodd y rhaglenni cyfalaf hyn effaith gadarnhaol ar y gymuned, gan wella'r llwybrau rhwng gofal plant a'r ysgol.

Mae cyllid wedi'i roi i ddau adeilad modiwlaid gofal plant newydd; Croes Atti yn Oakenholt yn creu 40 o leoedd gofal plant, a phrosiect Ysgol Gynradd Cornist, gan greu 40 o leoedd ychwanegol yn y Fflint.

Mae Sir y Fflint yn cynnal cydweithrediad parhaus gyda budd-ddeiliaid ac yn paratoi rhaglen gyfalaf gofal plant 2025-2028 i'w ystyried a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Derbyniodd Sir y Fflint £595,000 mewn cyllid Grantiau Cyfalaf Bach ar gyfer 2024-2025, sydd wedi'i ddyrannu'n llawn i ddarparwyr gofal plant lleol i wella'r cyfleusterau gofal plant, gan ddarparu gofal plant o ansawdd sy'n elwa dysgu a datblygiad plant.

Wedi'i alinio ag Adroddiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022, mae'r blaenoriaethau yn cynnwys hygyrchedd, hyblygrwydd ac ansawdd gofal plant. Mae ymgysylltiad â hyfforddiant datblygu'r Gymraeg yn cynyddu, gyda Chynnig Gweithredol y Gymraeg yn parhau i fod yn ffocws.

Rhaglenni Gofal Plant ac Estyniadau

Drwy ehangu gofal plant Dechrau'n Deg yn raddol, roedd 280 o blant yn gallu cael mynediad at o leiaf un sesiwn mewn lleoliad gofal plant cofrestredig. Mae Sir y Fflint wedi ymrwymo i gyflawni'r targedau ehangu gofal plant ymhellach a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae Tîm Gofal Plant Sir y Fflint yn darparu'r Cynnig Gofal Plant i blant 3-4 oed yn Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych, gan gydweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu systemau a pholisi. Mae cyllid ar gael i helpu plant ag anghenion ychwanegol i fynychu gofal plant sy'n bodloni eu hanghenion.

Mae'r holl ddarparwyr cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint wedi'u cymeradwyo i gynnig lleoedd gofal plant wedi'u hariannu gan Dechrau'n Deg. Mae angen cwmpasu ac ail-ddylunio'r model gofal



plant i sicrhau bod capasiti digonol mewn ardaloedd o amddifadedd a lle nad yw gofal plant ar gael yn gyffredinol, neu lle mae'n gyfyngedig. Mae'r tîm yn cynllunio i gyflwyno gofal plant Dechrau'n Deg yn y dyfodol ar gyfer 2025-2026 a thu hwnt, ac yn parhau i gydweithio â budd-ddeiliaid a sefydliadau ambarél gofal plant.

Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar - Dull Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol

Mae Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar Sir y Fflint yn arwain mentrau rhanbarthol, gan sicrhau eu bod yn alinio ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae ymdrechion wedi eu cydlynu yn hanfodol ar gyfer rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant 0-7 oed. Mae Partneriaeth Integreiddio a Thrawsnewid Blynyddoedd Cynnar Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cyfarfod bob chwarter i ddatblygu prosiectau a blaenoriaethau o waith Braenaru'r Blynyddoedd Cynnar. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio mewnwelediadau o'r Braenaru i lywio polisiâu'r dyfodol, gyda Sir y Fflint yn chwarae rhan weithredol.

Yn rhanbarthol, mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc wedi blaenoriaethu'r blynyddoedd cynnar gyda phump cam gweithredu allweddol. Yn lleol, mae Sir y Fflint wedi cyflwyno 15 o werthusiadau'r rhaglen Braenaru, sy'n dangos gwelliannau ers mis Mehefin 2020. Mae Adroddiad Terfynu'r Prosiect yn cael ei baratoi i gynnal arferion effeithiol a phwyslais ar anghenion cymunedol.

Mae Braenaru'r Blynyddoedd Cynnar wedi adolygu dulliau ar draws y gwasanaethau. Bu i gyflwyniad i arweinwyr Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2024 dynnu sylw at waith Gogledd Cymru ac argymhellion i'r dyfodol. Roedd yr elfennau allweddol yn cynnwys Cefnogwyr Rhieni, Stori'r Ymennydd, datblygu data a strategaeth y gweithlu. Bydd Terfynu'r Prosiect a'r Bartneriaeth ar gyfer Sir y Fflint



wedi'i gwblhau erbyn mis Mehefin 2025. Disgwylir dadansoddiad gwerthuso Llywodraeth Cymru erbyn mis Hydref 2025, a disgwylir adroddiad cryno Sir y Fflint ym mis Ebrill 2025. Mae gwaith y Blynyddoedd Cynnar yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Rhaglen Rhanbarthol.

Stori'r Ymennydd Rhydychen

Ffocws allweddol yw parhad hyfforddiant 'Stori'r Ymennydd', sy'n cyfleu cysyniadau pwysig gwyddoniaeth yr ymennydd trwy drosiadau hygyrch. Mae Gwasanaeth y Blynyddoedd Cynnar a Theuluoedd Sir y Fflint yn cefnogi ymarferwyr i gydnabod arwyddocâd profiadau cynnar yn ystod plentynod ar iechyd a lles. Eleni mae Sir y Fflint wedi darparu hyfforddiant i dros 100 o staff, gan wella eu dealltwriaeth o'r effeithiau ar blant a'u datblygiad i fod yn oedolion. Y nod yw sicrhau cyllid ar gyfer y fenter hon, gan ei fod yn helpu unigolion i ddeall y rôl hanfodol y mae profiadau cynnar yn ei chwarae mewn datblygiad yr ymennydd a chanlyniadau iechyd hirdymor.

Mae Sir y Fflint yn gweithio ar y cyd â Fleetwood a Phrifysgol Rhydychen i brofi, peilota a gwerthuso negeseuon y rhaglen a'r mecanweithiau darparu ymhellach. Mae'n sicrhau ein bod yn darparu i'r bobl gywir a bod y bobl gywir yn cael eu hyfforddi i ddeall anghenion, a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau'n well.

Cefnogwyr Rhieni

Mae'r cynllun peilot Cefnogwyr Rhieni wedi gwella mynediad teuluoedd at wybodaeth, gyda theuluoedd yn teimlo eu bod wedi'u hysbysu'n well ac yn gallu cael mynediad at wasanaethau'n haws. Mae saith gwirfoddolwr wedi cael eu recriwtio, gyda phedwar yn weithredol ar hyn o bryd. Mae cynlluniau ar waith i ymestyn y cynllun mewn ysgolion, lleoliadau gofal plant a grwpiau magu plant.

Mae Tîm Gwybodaeth ac Ymgysylltu'r Blynnyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd yn hyfforddi ac yn cefnogi'r gwirfoddolwyr hyn gan eu galluogi nhw i rannu gwybodaeth gyda rhieni a gwasanaethau. Mae rhaglen hyfforddiant dreigl yn cynnwys siaradwyr gwadd o sefydliadau partner.

Mae gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol, grwpiau magu plant arbenigol, ac ymweliadau ysgol, gan ddarparu gwybodaeth leol gywir a chyfrannu at dudalennau gwe'r



Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Dathlwyd Diwrnod Cenedlaethol Gwirfoddolwyr gyda digwyddiad "Diolch" i gydnabod eu cyfraniadau.

Rhaglen Rhianta Gwirfoddol

Mae pob un o'r tair rhaglen EPEC (Grymuso Rhieni, Grymuso Cymunedau) wedi'u darparu, gan ganolbwyntio ar feysydd a nodwyd gan ddata atgyfeirio gan BIPBC a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Mae chwe Arweinydd Grŵp Rhieni wedi cwblhau hyfforddiant ac maent bellach yn hwyluso grwpiau, gan gynyddu capasiti ar gyfer y rhaglen awtistiaeth EPEC.

Yn fwy diweddar, cafodd pum rhaglen eu darparu mewn lleoliadau hygrych, gyda chlodiant wedi'i ddarparu i deuluoedd mewn angen. Dywed y rhieni bod y grwpiau yn groesawgar ac yn ddiogel. Mae'r rhaglen graidd 'Bod yn Rhiant' wedi cefnogi twf y rhaglen awtistiaeth, gan ddyblu ei argaeledd ers mis Hydref. Mae cytundeb mewn egwyddor wedi'i gyflawni gyda'r rhaglen genedlaethol EPEC er mwyn i Sir y Fflint ragori ar ei nifer trwyddedig arferol o raglenni i fodloni'r galw am y rhaglen awtistiaeth.

Matrics Sgiliau Datblygu'r Gweithlu

Mae Matrics Sgiliau Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar wedi'i ddatblygu i sicrhau bod gan ymarferwyr y sgiliau priodol i gefnogi plant a'u teuluoedd. Mae'n cael ei ystyried ar gyfer cael ei ymestyn i rolau eraill, fel gofalwyr maeth i fabanod a phlant ifanc. Mae'r fenter hon yn cynnwys cynllun datblygu cynhwysfawr, gan ddarparu hyfforddiant yn seiliedig ar dystiolaeth i wella rolau ymarferwyr a chymorth, gan sicrhau cymorth effeithiol i deuluoedd a newid cadarnhaol.

Am fwy o wybodaeth am Flynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Sir y Fflint [cliciwch yma](#) neu sganiwch y cod QR isod:



I HOLL blant gael y dechrau gorau mewn bywyd
For ALL children to have the best start in life



Astudiaeth Achos: Grymuso Rhieni Grymuso Cymuned

Mae A yn rhiant gyda phlentyn sy'n aros am asesiad awtistiaeth ar hyn o bryd. Roedd yn hysbys i'n gwasanaeth yn gyntaf trwy banel allgymorth Dechrau'n Deg gydag atgyfeiriad a oedd yn disgrifio sut yr oedd yn cael trafferth ymdopi ag ymddygiad ei phlentyn. Yn ystod y panel nodwyd efallai byddai'r teulu yn cael budd o fynychu un o'r rhaglenni EPEC. Yn dilyn sgwrs â'r rhiant daeth yn amlwg nad oedd ganddi lawer o hyder a'i bod yn teimlo'n ynysig. I geisio codi hyder rhiant A, cafodd y cyfle i fynychu un o'n grwpiau Bod yn Rhiant sy'n rhedeg am 8 wythnos. Y nod oedd codi ei hyder o ran magu plant drwy fynychu lleoliad grŵp, ac yna ei harwain hi ar y rhaglen awtistiaeth Bod yn Rhiant.

Bu i'r rhiant ffynnu yn y grŵp Bod yn Rhiant, gyda thystiolaeth bod ei hyder yn cynyddu, ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei gallu i gefnogi a chyfathrebu â'i phlentyn. Ar ôl cwblhau'r rhaglen 8 wythnos, bu iddi gofrestru i fynychu'r rhaglen awtistiaeth Bod yn Rhiant. Roedd hyn dros gyfnod o 6 mis.

Ar adegau roedd rhiant A yn ei gweld yn anodd mynychu'r rhaglenni gan ei bod yn gweithio'n llawn amser ond roedd yn parhau i fod yn ymrwymedig a llwyddodd i gwblhau'r sesiynau dal i fyny ar sail un i un gyda'r Ymarferydd Cymorth i Deuluoedd EPEC. Llwyddodd rhiant A i gwblhau'r ddwy raglen. Mae rhiant A wedi cefnogi ei phlentyn i ddod yn fwy ymwybodol o'i emosiynau ac wedi'i helpu i nodi sut y mae'n teimlo. Mae hyn wedi arwain at yr aelwyd yn dod yn lle mwy tawel ac mae wedi gwella perthynas y plentyn â'i frawd/chwaer.

Mae rhiant A wedi mynd o nerth i nerth, nid yn unig y mae hi wedi magu hyder ynddi hi ei hun ond mae hefyd wedi magu hyder o ran datblygu dull cadarnhaol tuag at ei phlentyn a'i ymddygiad. Mae hi hefyd wedi dechrau cael mynediad at sefydliadau eraill sy'n cefnogi anghenion niwroamrywiol plant. Yn ychwanegol, bu iddi gael budd o'r perthnasoedd gyda chyfoedion a'r rhwydweithiau y mae'r cymorth yn seiliedig ar grŵp yn ei ddarparu a theimlodd bod y trafodaethau a rennir a'r profiadau tebyg yn y grŵp wedi'i helpu hi i deimlo fel nad oedd hi ar ei phen ei hun.

Y Tîm Dilyniant – Cefnogi Annibyniaeth trwy Ddull yn Seiliedig ar Gryfderau

Mae'r Tîm Dilyniant yn darparu cymorth wedi'i dargedu i unigolion sydd wedi nodi anghenion ond nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwyso ar gyfer gwasanaethau eraill a gomisiynwyd. Mae ein cefnogaeth wedi'i ddylunio'n benodol i bobl ag anableddau dysgu, anableddau corfforol, anawsterau iechyd meddwl a nifer cynyddol o unigolion niwroamrywiol iau wrth i'n tîm barhau i ddatblygu.

Rydym yn parhau i addasu ein gwasanaethau i fodloni anghenion esblygol y rhai yr ydym yn eu cefnogi. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael ag anghenion sy'n codi, fel cefnogi unigolion niwroamrywiol iau a oedd yn cael trafferth yn flaenorol i gael mynediad at wasanaethau. Wrth i ni dyfu, rydym yn parhau i wella ein perthnasau cydweithredol gydag adnoddau cymunedol, gwasanaethau a rhwydweithiau, i sicrhau bod unigolion yn derbyn cymorth cyfannol a chynhwysfawr sydd wedi'i deilwra i'w nodau a'u dyheadau personol.

Mae ein dull sy'n seiliedig ar gryfderau yn mynd ati i nodi, cydnabod ac adeiladu ar adnoddau a chryfderau unigryw pob unigolyn. Mae'r dull hwn yn grymuso unigolion, yn hyrwyddo hunan-hyder ac yn eu hannog i gymryd rheolaeth dros eu bywydau eu hunain. Drwy gynnal y pwyslais hwn ar gryfderau ac annibyniaeth ragweithiol, mae'r Tîm Dilyniant yn llwyddo i gefnogi unigolion i gyflawni ymreolaeth well a lleihau eu dibyniaeth ar wasanaethau cymorth ffurfiol yn sylweddol.

Mae'r astudiaeth achos hwn yn dangos y canlyniadau cadarnhaol y gellir eu cyflawni pan fydd cymorth wedi'i deilwra'n briodol a'i leihau'n raddol. Mae'r unigolyn bellach yn rheoli ei gyfrifoldebau o ddydd i ddydd yn annibynnol ac yn hyderus, gan ddangos effeithiolrwydd dulliau at ofal sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Astudiaeth Achos: Cyflawni Annibyniaeth trwy Gefnogaeth wedi'i Thargedu

Roedd dyn ifanc, a oedd yn byw mewn lleoliad preswyl yn flaenorol, yn derbyn cymorth sylweddol, gyda hyd at dri aelod o staff cymorth yn bresennol ar unrhyw adeg benodol. Er ei fod yn niwroamrywiol, nid oedd wedi derbyn unrhyw ddiagnosis ffurfiol, gan ei wneud yn heriol iddo gael mynediad at gymorth priodol. Yn hanesyddol, roedd y diffyg diagnosis ffurfiol hwn wedi'i wneud yn anodd iddo dderbyn cymorth wedi'i deilwra i fodloni ei anghenion unigryw.

Gan gydnabod y bwlch hwn, bu i'r Tîm Dilyniant gamu i mewn i'w gefnogi tuag at gyflawni ei nodau personol. Trwy gynllunio gofalus ac ymyrraeth wedi'i thargedu, bu i'r tîm ei helpu i drosglwyddo'n llwyddiannus o'r lleoliad preswyl i'w eiddo annibynnol ei hun. Cafodd y cymorth ei leihau'n raddol i ychydig o oriau bob dydd, gan ei grymuso i gymryd rheolaeth dros ei fywyd bob dydd.

Bu i allu a hyder yr unigolyn ddatblygu'n gyflym wrth iddo gymryd cyfrifoldeb dros ei dasgau byw bob dydd a bu iddo ymgysylltu'n rhagweithiol mewn datblygu sgiliau newydd. Trwy'r broses strwythuredig a graddol hon, roedd yn gallu rhoi'r gorau yn llwyr i dderbyn pob gwasanaeth ffurfiol a gomisiynwyd, gan ddangos cynnydd sylweddol mewn hunangynhaliath.

Gan fyfyrrio ar ei gynnydd, dywedodd yr unigolyn:

"Rwy'n hapus."

"Mae gennyf fwy o annibyniaeth."

"Nid oeddwn yn meddwl y byddwn i wedi gallu gwneud hyn i mi fy hun, ond rwyf wedi llwyddo"

Model Dilyniant

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i hyrwyddo sgiliau annibyniaeth a lleihau'r angen am gymorth ffurfiol gyda thâl o fewn y Gwasanaethau Anableddau trwy'r Model Dilyniant. Mae'r model hwn yn cael ei ddefnyddio ym mhob asesiad gan y tîm i helpu unigolion i gyflawni eu lefel uchaf o annibyniaeth bersonol. Y nod yw galluogi unigolion i fodloni eu canlyniadau dymunol heb gymorth ffurfiol â thâl, gan ddefnyddio gweithwyr cefnogi sydd newydd eu penodi ac asiantaethau'r trydydd sector.

Mae'r Model Dilyniant wedi bod yn allweddol wrth gynnal adolygiadau dwys o Brosiectau Llety Byw â Chymorth. Hyd yn hyn, mae adolygiadau tair asiantaeth allanol wedi arwain at ostyngiad o dros 200 awr o gymorth wythnosol. Mae'r dull hwn yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer yr holl asesiadau gofal cymdeithasol ac adolygiadau gofal i unigolion a atgyfeiriwyd at y Gwasanaeth Anableddau i Oedolion.

Cyfleoedd Cyflogaeth i Bobl Anabl

Rhaglen Cyflogaeth â Chefnogaeth

Mae Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd bellach wedi cyflwyno'r Rhaglen Cyflogaeth â Chefnogaeth i unigolion ag anableddau dysgu ar draws Gogledd Cymru. Wedi'i ariannu gan Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru, mae'r rhaglen yn bartneriaeth rhwng gwasanaethau gofal cymdeithasol y chwe awdurdod lleol a gwasanaethau cyflogaeth â chymorth arbenigol.

Yn Sir y Fflint, gall unigolion 14 oed a throsodd sydd wedi cael



diagnosis o anabledd dysgu dderbyn cymorth personol gan hyfforddwr swyddi pwrpasol a ddarperir gan Hft. Mae'r hyfforddwr swyddi yn helpu gyda chwilio am swyddi, ceisiadau, paratoi at gyfweiliadau, hyfforddiant teithio a chymorth parhaus i sicrhau bod unigolion yn ffynnu yn eu swyddi. Maent hefyd yn helpu cyflogwyr i wneud addasiadau angenrheidiol.

Gellir cael mynediad at y cymorth hwn trwy ein Cydlynnydd Llwybr Cyflogaeth sydd wedi'i leoli yn Nhîm Dilyniant Sir y Fflint. Mae'r Cydlynnydd Llwybr Cyflogaeth yn darparu gwybodaeth i helpu unigolion i wneud penderfyniadau gwybodus am gyflogaeth â thâl ac yn cynnig cymorth cyn-gweithio, fel gwirfoddoli a chysiau addysgiadol, cyn eu hatgyfeirio at Hft am leoliad gwaith. Mae'r Cydlynnydd Llwybr Cyflogaeth wedi sefydlu cysylltiadau â thimau gwaith cymdeithasol, Gyrfa Cymru a darparwyr addysg arbenigol ar draws Sir y Fflint.

Yn ychwanegol, mae'r Tîm Trawsnewid wedi datblygu dangosfwrdd perfformiad sy'n cynnwys manylion o berfformiad y Cydlynnydd Llwybr Cyflogaeth y gallwn ei ddefnyddio i fonitro cynnydd ac asesu perfformiad.

Partneriaeth â Fforwm Menter Glannau Dyfrdwy

Mae partneriaeth Sir y Fflint gyda Fforwm Menter Glannau Dyfrdwy i greu cyfleoedd cyflogaeth i unigolion bregus o fewn gwasanaethau cymdeithasol wedi cwblhau ei gyfarfodydd cychwynnol yn llwyddiannus. Nod y cydweithrediad hwn yw hyrwyddo cyflogaeth pobl ag anableddau a darparu cyfleoedd gwaith ystyrlon a chymorth i'r rhai mewn angen, gan fabwysiadu mwy o gynhwysiant ac annibyniaeth.

Prosiect SEARCH

Mae'r cynllun Prosiect SEARCH yn Sir y Fflint yn parhau i fod yn llwyddiant gyda chanlyniadau cadarnhaol i'r unigolion sy'n rhan, ac mae llawer o'r interniaid yn cael cyflogaeth â thâl ar ôl cwblhau'r rhaglenni.

Cwblhaodd Jordan y rhaglen interniaeth ym mis Gorffennaf 2024 ac ers hynny mae wedi sicrhau swydd â thâl fel cymhorthydd clerigol gyda'r GIG. Yn ystod y rhaglen, bu iddo ymgymryd â lleoliad gwaith mewn meddygfa leol, ble ymgymrodd â thasgau gweinyddol amrywiol, ac ar ôl graddio, cafodd Jordan gynnig oriau banc.

Pan ofynnwyd am ei brofiad yn ystod yr interniaeth ac am ei deimladau am sicrhau cyflogaeth, dywedodd:

“Roeddwn yn rhan o'r rhaglen Prosiect SEARCH a bellach rwy'n gymhorthydd clerigol yn fy meddygfa leol yn gwneud oriau banc. Mae'r swydd banc wedi gwneud i mi deimlo fel fy mod yn helpu allan ac yn dysgu technegau newydd i wella fy ngwaith, mae wedi gwneud i mi deimlo'n dda am fy hun.”

Llety i Bobl Ifanc ag Anableddau Dysgu

Mae Sir y Fflint wedi ymrwymo i fodloni anghenion llety pobl ifanc ag anableddau dysgu. Mae'r Gwasanaeth Anableddau Dysgu

yn gweithredu Panel Llety sy'n asesu anghenion unigol ac sy'n cydweithio â darparwyr tai i gynllunio ar gyfer galwadau presennol a'r dyfodol. Mae'r dull rhagweithiol hwn yn sicrhau bod trefniadau byw addas a chefnogol ar gael, gan helpu pobl ifanc i gyflawni mwy o annibyniaeth a lles.

Gwasanaethau Gofalwyr

Ailgomisiynu Gwasanaethau Gofalwyr

Mae'r broses ailgomisiynu bellach wedi'i chwblhau. Gwerthuswyd yr holl geisiadau yn erbyn y manylion gan banel a oedd yn cynnwys gofalwyr di-dâl. Mae contractau wedi'u dyfarnu i [NEWCIS](#), y [Ganolfan Therapi Niwro](#), a DAFFODILS gan ddechrau ar 1 Ebrill 2025. Mae'r ailgomisiynu hwn yn ein galluogi i addasu a gwella ein gwasanaethau i fodloni anghenion gofalwyr lleol yn well.

Cynyddu Gwelededd ac Ymwybyddiaeth Gymunedol

Mae NEWCIS wedi ymrwymo i nodi a chysylltu â mwy o ofalwyr, gan wella gwelededd a hygyrchedd gwasanaethau, a chodi ymwybyddiaeth gymunedol. Mae eu heiddo newydd ar Stryd Fawr yr Wyddgrug yn gwella eu gallu i gefnogi gofalwyr, gan ddarparu lleoliad cyfleus i gael gwybodaeth a gwasanaethau.

Mae gwelededd cynyddol y ganolfan yn helpu mwy o ofalwyr i gydnabod eu rolau a cheisio cymorth. Mae NEWCIS hefyd wedi recriwtio aelodau ar gyfer fforwm Sir y Fflint ac yn trefnu eu

digwyddiad cyntaf. Ers Diwrnod Hawliau Gofalwyr ym mis Tachwedd, maent wedi casglu adborth a data gan ofalwyr, gan hysbysu eu proses ailgomisiynu a siapia gwasanaethau'r dyfodol ac ymdrechion hyrwyddo.



Ehangu Datrysiadau Seibiant Creadigol

Mae NEWCIS yn datblygu datrysiadau seibiant yn barhaus i fodloni anghenion esblygol gofalwyr wrth lywio heriau presennol y sector gofal. O dan dendr newydd Sir y Fflint, maent wedi ehangu'r dewisiadau seibiant, yn cynnwys seibiant hanner diwrnod mewn cyfleusterau gofal ychwanegol a chyfuno adnoddau i gefnogi gofalwyr a'r rhai y maent yn gofalu amdanynt. Mae hyn yn sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau, gan wasanaethu mwy o ofalwyr a chyflawni canlyniadau gwell.

Mae NEWCIS hefyd yn defnyddio eu cabanau awyr agored newydd i gyflwyno digwyddiadau lles newydd a gweithdai uwchgyrchu creadigol. Wedi'i ysbrydoli gan adborth gofalwyr, mae'r mentrau hyn yn cynnig cyfleoedd i adeiladu sgiliau, cefnogi cynaliadwyedd sefydliadol a darparu egwyliau sydd wir eu hangen i ofalwyr. Er ei fod newydd gael ei lansio, mae'r cynlluniau hyn yn boblogaidd yn barod, gyda mwy o gyfleoedd i ddod wrth i'r ganolfan dyfu.

Cefnogi Gofalwyr o Gefndiroedd Lleiafrifoedd Ethnig

Mae NEWCIS yn mynd ati i ymgysylltu â grwpiau cymunedol i gefnogi gofalwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Maent yn cydweithio â'r Ymddiriedaeth Gofalwyr ar raglen iaith a hyrwyddo i gyrraedd yr unigolion hyn yn well. Yn ychwanegol, mae NEWCIS wedi sicrhau cyllid parhaus i ddarparu egwyliau byr i ofalwyr sy'n ffoaduriaid yn Sir y Fflint o'u rolau gofalu.

Cynnydd mewn Costau Byw

Mae NEWCIS yn mynd ati i geisio adnoddau newydd i gefnogi gofalwyr sy'n wynebu pwysau cynyddol costau byw. Maent yn cydweithio â phartneriaid fel Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint ac Age Connects, gan ganolbwyntio'n benodol ar gostau ynni a gwresogi. Yn ddiweddar, bu iddynt gynnal gweithdai ynni lleol a gafodd eu mynychu

gan dros 20 o ofalwyr ac atgyfeiriwyd 290 o ofalwyr at Gyngor ar Bopeth Sir y Fflint am wiriadau budd-daliadau ar gymhwysedd credyd pensiwn a thaliad tanwydd y gaeaf.

Mae NEWCIS hefyd yn ail-dendro ar gyfer y Gronfa Cymorth Gofalwyr gan Ymddiriedolaeth y Gofalwyr. Os yn llwyddiannus, bydd hyn yn darparu cymorth ariannol i ofalwyr yn Sir y Fflint am 12 mis arall, gan eu helpu i reoli costau byw ac argyfyngau ariannol.

Cefnogi Gofalwyr Ifanc

Rydym wedi ymrwymo i wella gwasanaethau cymorth i Ofalwyr Ifanc (o dan 18 oed) trwy fentrau yn cynnwys:

- Ehangu Cynllun Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc.
- Cynyddu ymgysylltiad â chydweithwyr addysg ac ysgolion.
- Cydweithio â busnesau a chymunedau ar draws Sir y Fflint.
- Darparu hyfforddiant a chyfleoedd addysg.

Gyda chyllid sydd newydd ei sicrhau, bellach mae gan "Gofalwyr Ifanc NEWCIS" oriau pwrpasol yn y tîm i weithio'n uniongyrchol ag ysgolion Sir y Fflint, gan hyrwyddo anghenion gofalwyr ac uwchsgilio staff ysgol. Mae digwyddiadau ymgysylltu hefyd wedi'u cynnal gyda busnesau lleol i archwilio cymorth ymarferol ac addysgol i ofalwyr ifanc. Dangoswyd yr ymdrechion hyn yn niwrnod agored yr eiddo newydd ym mis Mawrth 2025, gyda busnesau lleol yn bresennol.




Mae Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc yn parhau i fod yn rhan allweddol o'n rhaglen hyfforddi ar draws ysgolion Sir y Fflint. Mae'r cerdyn yn cefnogi gofalwyr ifanc i gael mynediad at gymorth arbenigol ac mae busnesau lleol wedi ymuno â ni i ddarparu gostyngiadau a chynigion i ofalwyr ifanc sy'n dangos eu cerdyn.

Astudiaeth Achos – Gofalwyr

“Ar ôl ymgymryd â rôl ofalu dros fy mam sydd â salwch terfynol yn ddiweddar, ochr yn ochr â fy nhad, rwyf wedi profi'r straen a'r effaith fawr y mae hyn wedi'i gael ar fy nheulu. Mae ein rolau a'n cyfrifoldebau o fewn y cartref wedi newid yn sylweddol. Ar adegau mae hyn wedi arwain at wrthdaro, blinder a thoriadau yn ein perthynas. Gan fod fy mam angen gofal 24 awr y dydd, mae fy nhad a minnau yn cael trafferth dod o hyd i amser o safon gyda'n gilydd gan fod yn rhaid i un ohonom aros gartref bob amser i ofalu am fy mam.

Cyn i fy mam fynd yn wael, roedd fy nhad a finnau yn arfer treulio llawer o amser gyda'n gilydd, yn gwneud pethau y mae'r ddau ohonom yn ei fwynhau, fodd bynnag mae hyn wedi dod yn fwyfwy anodd gan nad ydym yn gallu gadael fy mam ar ei phen ei hun mwyach. Mae hyn wedi dod yn eithaf niweidiol i'r ddau ohonom ac mae wedi cael effaith ar ein hiechyd meddwl a'n lles. Ar adegau mae'r berthynas rhwng fy nhad a minnau wedi bod yn eithaf cecrus oherwydd yr amgylchedd straen uchel a'r agosatrwydd cyson.

Gyda chefnogaeth ardderchog NEWCIS, bu i ni wneud cais am 3 awr o gefnogaeth bob yn ail wythnos. Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i'n teulu. Mae gwybod y gallwn fwynhau amser o safon gyda'n gilydd, a gwybod bod fy mam mewn dwylo diogel yn galluogi i fy nhad a minnau gael seibiant sydd wir ei angen o'n rolau gofalu a bydd yn lliniaru rhywfaint o'r straen parhaus o fywyd bob dydd fel gofalwr i mam. Mae'r amser o safon yr ydym yn ei dreulio gyda'n gilydd y tu allan i'r tŷ yn helpu i liniaru unrhyw densiynau a dod â ni'n agosach at ein gilydd. Rwy'n edrych ymlaen yn arw at dreulio amser gwerthfawr gyda'n gilydd unwaith eto. Heb y cymorth bach hwn, nid wyf yn gwybod am ba mor hir y gallem ni fod wedi parhau fel hyn. Rwy'n ofni y byddai mam o leiaf wedi bod angen gofalwyr i ddod i mewn sawl gwaith y dydd, ond mae'n fwy tebygol y byddai hi fod wedi angen mynd i gartref gofal. Bellach rwy'n teimlo'n gyfforddus ein bod yn gallu rheoli a pharhau i ofalu am mam ein hunain a'i chadw gartref sef lle'r oedd hi eisiau bod.”



Blaenoriaethau 2025/26

- Adnewyddu ein gwefan i ddarparu gwybodaeth glir ac atgyfeirio.
- Adolygu a gwella ein hymateb cyntaf trwy ein gwasanaethau Un Pwynt Mynediad a Chyswllt Cyntaf a'r Blynnyddoedd Cynnar, gan sicrhau eu bod yn darparu cymorth cychwynnol effeithiol ac ymatebol yn cynnwys Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.
- Hyrwyddo'r defnydd o 'Stori'r Ymennydd Rhydychen' a deall gwyddoniaeth yr ymennydd a phrofiadau niweidiol a chadarnhaol ar y plentyn sy'n datblygu.
- Gweithio gyda NEWCIS i wneud y mwyaf o wybodaeth, cyngor a chymorth prydlon i ofalwyr.
- Ehangu ein gwasanaeth ailalluogi i gynyddu nifer y bobl y gellir eu cefnogi.
- Cefnogi datblygiad pellach ein gwaith adolygu ac ailasesu mewnol, gan hyrwyddo'r model dilyniant ar draws yr holl wasanaethau i oedolion.
- Cefnogi pobl ifanc i symud o ofal preswyl cost uchel ac ymestyn maethu mewnol.
- Peilota'r model MST-CAN (Therapi Aml-Systemig Cam-drin ac Esgeuluso Plant) i sicrhau newid lle mae esgeulustod a chamddefnyddio sylweddau yn bresennol, ac adeiladu gwydnwch teuluol i osgoi'r angen i ddod â phlant i'r system ofal yn ddiogel.



Partneriaeth ac Integreiddio

Y Safonau Ansawdd

- Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu'n llawn ganlyniadau cwbl integredig, o ansawdd uchel, cynaliadwy i bobl.
- Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at ddyluniad a darpariaeth eu gofal a chefnogaeth fel partneriaid cyfartal.



Tŷ Croes Atti

Mae'r gwaith o adeiladu cartref gofal newydd gwerth miliynau o bunnoedd yn y Fflint, Tŷ Croes Atti, yn ddatblygu'n dda a bydd wedi'i gwblhau yn yr haf 2025. Mae'r cynllun £18 miliwn hwn yn cael ei ariannu trwy raglen gyfalaf Cyngor Sir y Fflint, wedi'i gefnogi gan dros £11 miliwn o Gronfa Cyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysio Llywodraeth Cymru a rhaglenni cyfalaf y Gronfa Tai â Gofal.

Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng Cyngor Sir y Fflint, BIPBC, Willmott Dixon Construction a Llywodraeth Cymru, a fydd yn adleoli ac yn ehangu cartref gofal presennol o 31 i 56 o welyau. Bydd y cyfleuster newydd yn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd integredig a ddarperir gan BIPBC a thimau Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint.

Dywedodd Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir y Fflint ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, y Cynghorydd Christine Jones: *“Mae'r sector gofal yn Sir y Fflint yn gweithio o fewn amgylchedd cynyddol heriol ac felly fel Cyngor rydym yn cymryd dull cadarnhaol i ddatblygu cartrefi gofal sy'n gwerthfawrogi pobl hŷn ac yn darparu cymorth da o ansawdd sy'n ein rhoi ni mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol”.*

Dywedodd Dawn Bowden, y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol: *“Mae'n wych gweld y cynnydd arbennig yn Nhŷ Croes Atti. Bydd y prosiect pwysig hwn yn helpu i roi hwb i'n capasiti cymunedol ac mae'n enghraifft wych o gydweithio i ddarparu gwasanaethau i bobl Sir y Fflint. Rwy'n edrych ymlaen at weld y prosiect wedi'i gwblhau yn y dyfodol agos.”*

Canolbwynt Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Integredig Coed-y-Ddraig

Mae'r gwaith adeiladu ar gyfer canolbwynt newydd Coed-y-Ddraig ym Maes Gwern yn yr Wyddgrug wedi datblygu'n dda a bydd wedi'i gwblhau yn yr haf 2025.

Bydd canolbwynt integredig Coed-y-Ddraig yn cynnig cyfleuster a adeiladwyd yn bwrpasol i unigolion ag anableddau dysgu a/neu anghenion cymorth awtistiaeth. Bydd y gwasanaeth garddwriaethol o Tri Ffordd yn symud i Goed-y-Ddraig, gan olygu y bydd yn cael budd o gyfleusterau gwell a mwy o le. Bydd yr estyniad hefyd yn galluogi datblygiad gwasanaeth cymorth awtistiaeth pwrpasol i unigolion ag anghenion cymhleth. Yn ogystal â hyn, bydd gwasanaethau iechyd a therapiau a ddarperir gan BIPBC ar gael yn y canolbwynt, yn cynnwys Ffisiotherapi, Dieteteg, Therapi Galwedigaethol, Therapi Iaith a Lleferydd a rhaglenni a arweinir gan gyfoedion fel y Rhaglen Addysg i Gleifion.



Meicro-Ofal - Blwyddyn o Dwf a Chyrhaeddiad

Eleni, mae'r Prosiect Meicro-Ofal wedi parhau i ehangu ar gyfradd ryfeddol, gan basio twf y llynedd. Rydym wedi sefydlu 23 o fusnesau newydd sydd wedi ymrwymo i gefnogi gofal personol a lles, gan fod o fudd i oddeutu 300 o bobl yn Sir y Fflint. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu oddeutu 1,500 awr o gymorth bob mis.

Mae'r cerrig milltir allweddol yn cynnwys lansio gwasanaeth ail ddiwrnod gan fenter Meicro-Ofal, ehangu busnes Meicro-Ofalwr arall i gynnwys gweithwyr newydd, a datblygiad proffesiynol busnes gyda'r nod o ddod yn ddarparwr gofal cartref rheoledig yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Rydym hefyd wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y Meicro-Ofalwyr sy'n cwblhau proses diwydrwydd dyladwy'r Fframwaith Ansawdd ac yn arwyddo contractau gyda'r Cyngor ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal. Bellach mae 16 o ddarparwyr tebyg ac mae hyn wedi bod yn hanfodol o ran llenwi bylchau lle nad yw asiantaethau gofal cartref traddodiadol wedi gallu darparu cymorth. Er enghraifft, ym mis Ionawr, camodd Meicro-Ofalwr i mewn yn ystod digwyddiad brys pan wnaeth darparwr ddychwelyd pecyn gofal, gan sicrhau cymorth parhaus nes daethpwyd o hyd i ddatrysiaid hirdymor.

Mae'r prosiect wedi derbyn cydnabyddiaeth allanol yn 2024/25. Mae wedi'i achredu a'i gynnwys ar Gronfa Ddata Fyd-eang Arferion Cyfeillgar o ran Oed gan Sefydliad Iechyd y Byd. Yn ychwanegol, cafodd y prosiect glod mawr ar ôl cyrraedd y rownd derfynol yng Ngwobrau Gofal Cymdeithasol 2024, o dan y categori "Gweithio mewn Partneriaeth". Mae'r acolâd hwn yn tynnu sylw at y partneriaethau cadarn a chadarnhaol yn Sir y Fflint rhwng Meicro-Ofalwyr, y rhai sy'n derbyn gwasanaethau, gweithwyr proffesiynol, partneriaid y trydydd sector a'n tîm prosiect.

Sir y Fflint
Gofal-~~Micro~~
Tyfu Gofal yn Sir y Fflint

Flintshire
Micro-Care
Growing Care in Flintshire

I gael mwy o wybodaeth am Feicro-Ofal [cliciwch yma.](#)

Cyflwyno ‘Hear My Voice’: Grymuso Hunan-Eiriolaethy

Ar ôl ailgomisiynu ein gwasanaeth hunan-eiriolaeth, mae Advance Brighter Futures wedi cymryd dull dynamig a chynhwysol i ailddylunio'r gwasanaeth. Trwy broses cyd-gynhyrchu cynhwysfawr, gan gynnwys cydweithio â defnyddwyr gwasanaeth a budd-ddeiliaid, mae'r gwasanaeth wedi'i thrawsnewid a'i hailenwi yn 'Hear My Voice'.

Hanfod Hear My Voice yw grymuso unigolion drwy roi sgiliau hunan-eirioli hanfodol iddynt. Nod y fenter hon yw meithrin annibyniaeth a hyder, gan alluogi pobl i gynrychioli eu diddordebau a'u hanghenion eu hunain. Drwy ddysgu ac ymarfer y sgiliau hyn, gall unigolion leihau eu dibyniaeth ar wasanaethau eirioli ffurfiol gan gael yr offer i lywio eu bywydau gyda mwy o ymreolaeth.

Mae trawsnewidiad y gwasanaeth hwn yn pwysleisio ein hymrwymiad i greu amgylchedd cefnogol lle mae pob llais yn cael ei glywed a'i werthfawrogi. Mae Hear My Voice yn fwy nag enw yn unig; mae'n cynrychioli mudiad tuag at hunan-rymuso a newid parhaus.

Am fwy o wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael, gweler atodlen y gwasanaeth sydd ar gael ar wefan Advance Brighter Futures [yma](#).

Siwrnai'r Gwasanaethau Cymdeithasol tuag at Sero Net

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio cynllun i gyflawni allyriadau carbon sero net yn y sector gofal cymdeithasol erbyn 2030. Mae'r strategaeth, a amlinellwyd yn y ddogfen “Datgarboneiddio Gofal Cymdeithasol yng Nghymru”, yn canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd ynni, hyrwyddo arferion cynaliadwy a lleihau gwastraff.

Mae Sir y Fflint wedi ymrwymo i leihau allyriadau carbon mewn gofal cymdeithasol trwy'r mentrau amrywiol a restrir isod, gan gyfrannu at y nod ehangach o gyflawni sero net erbyn 2030.

Strategaeth Newid Hinsawdd

Mabwysiadodd Cyngor Sir y Fflint ei Strategaeth Newid Hinsawdd yn 2022, gan ymgorffori camau gweithredu i leihau allyriadau carbon mewn gofal cymdeithasol.

Cyfleusterau Effeithlon o ran Ynni

Mae Cartref Gofal Marleyfield House ym Mwcle a Chartref Gofal Tŷ Croes Atti yn y Fflint wedi'u dylunio i fod yn adeiladau sero net. Yn ychwanegol at ein pedwar cyfleuster gofal ychwanegol modern ac effeithlon o ran ynni, sydd wedi'u datblygu ar y cyd â phartneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Gwasanaethau Dydd Cynaliadwy

Mae datblygiad newydd Coed-y-Ddraig yn Yr Wyddgrug wedi'i ddylunio gyda chynaliadwyedd mewn golwg i cyflawni'i weithredu yn garbon sero net (NZCiO).

Caffael Cynaliadwy

Mae darparwyr gofal lleol yn cael eu cefnogi i ddarparu gofal o ansawdd o fewn eu cymunedau, gan leihau allyriadau teithio.

Gweithgareddau i Leihau Carbon

Mae darparwyr gofal yn defnyddio 'rowndiau cerdded', 'rowndiau beicio' a chynlluniau rhannu ceir i leihau allyriadau teithio.

Dadansoddiad Sbectwm Gofodol (SSA)

Mae'r offer mapio hwn yn gwella'r gwasanaeth broceriaeth drwy fapio dyraniadau gofal cartref yn ddigidol, gan sicrhau darpariaeth gofal effeithlon a charbon gyfeillgar.

Fframwaith Gofal Cartref Gogledd Cymru

Mae'r fframwaith yn pwysleisio arferion lleihau carbon ac yn cefnogi darparwyr gofal yn eu hymdrechion i leihau carbon. .

Cerbydau Trydan

Mae'r Cyngor wedi prynu chwe char trydan Renault Zoe ac wedi gosod isadeiledd gwefru i gefnogi darpariaeth gofal cartref ar draws yr ardal.

Am fwy o wybodaeth am newid hinsawdd a lleihau ein ôl-troed carbon, [cliciwch yma](#).

Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth

Yn dilyn cymeradwyo'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru a'r cod ymarfer statudol a ddaeth i rym ym mis Medi 2024, mae Sir y Fflint wedi paratoi hunanasesiad cychwynnol. Cafodd yr asesiad hwn, a oedd yn cynnwys mewnbwn sylweddol gan swyddogion a oedd yn ymgymryd ag ymarferion comisiynu'n rheolaidd, yn ogystal â Rheolwyr Gwasanaeth, ei gynnal yn erbyn saith egwyddor a deg safon y fframwaith. Mae'r hunanasesiad wedi arwain at gynllun gweithredu sy'n cael ei weithredu ar hyn o bryd.

Mae camau gweithredu amlwg a dynnwyd sylw atynt o fewn yr hunanasesiad yn cynnwys drafftio cynllun comisiynu trosfwaol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n cyfuno blaenoriaethau presennol a chynlluniau gwasanaeth sy'n effeithio ar y Gwasanaethau Cymdeithasol, a chasgliad blaenoriaethau comisiynu strategol penodol. Yn ogystal â hyn, mae strategaeth cyd-gynhyrchu wedi'i ddrafftio i gefnogi dull y Cyngor at gyd-gynhyrchu gwasanaethau gyda'r rhai sy'n eu defnyddio, gyda'r bwriad o alluogi dull mwy cynhwysol at weithgareddau comisiynu'r Cyngor.



Blaenoriaethau 2025/26

- Datblygu cyfleoedd dydd ystyrlon trwy agor a datblygu Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Coed-y-Ddraig.
- Datblygu gofal preswyl mewnol:
 - o Agor Tŷ Croes Atti a gwelyau ailalluogi.
 - o Nodi nodau datblygu ar gyfer Llys Gwenffrwd.
- Creu cartref gofal preswyl mewnol i blant.
- Peilota model 'aseswr dibynadwy' i gefnogi asesiadau ysbyty a phrosesau rhyddhau o'r ysbyty.
- Creu model rhagolygon i hysbysu datblygiad gwasanaeth, darpariaeth fewnol a chomisiynu.
- Integreiddio allyriadau carbon sero net i weithgaredd comisiynu.
- Cydweithio a chefnogi darparwyr gofal preswyl a maeth y sector annibynnol i symud at fodolau Nid-er-Elw a rhagnodwyd.
- Datblygu pris teg ar gyfer gofal gan ddefnyddio system / methodoleg Care Cubed.

Lles

Y Safonau Ansawdd

- Mae pobl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod a mathau eraill o niwed.
- Mae pobl yn cael eu cefnogi i reoli eu lles a gwneud eu penderfyniadau eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn a byw'n annibynnol am gymaint â phosibl.



Gweithredu Model Ymarfer Amddiffyn Plant yn Effeithiol a Lansio Offeryn Proffil Graddedig-Esgeulustod (GCP2) y NSPCC

Yn ystod 2024/25 mae camau sylweddol wedi'u gwneud o ran mewnosod model ymarfer Amddiffyn Plant yn Effeithiol o fewn Gwasanaethau Plant. Mae'r cyflawniadau allweddol yn cynnwys cwblhau hyfforddiant Mentoriaid Cyfathrebu Cydweithredol a chyflwyniad parhaus hyfforddiant Amddiffyn Plant yn Effeithiol a Risg 2, er bod rhywfaint o oedi wedi bod. Mae'r adborth cychwynnol yn nodi mwy o hyder o ran ymgysylltu â sgysiau sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar waith achos a gwneud penderfyniadau.

Mae lansio Offeryn Proffil Graddedig-Esgeulustod (GCP2) y NSPCC wedi'i oedi o ganlyniad i flaenoriaethu'r hyfforddiant Amddiffyn Plant yn Effeithiol. Mae'r penderfyniad hwn yn sicrhau bod gan staff y sgiliau angenrheidiol ar gyfer amddiffyn plant yn effeithiol. Rydym yn dal wedi ymrwymo i gyflwyno'r offeryn GCP2 unwaith y mae'r hyfforddiant Amddiffyn Plant yn Effeithiol wedi'i gwblhau. Er mwyn

sicrhau cynnydd parhaus y gwaith pwysig hwn, ar hyn o bryd rydym yn recriwtio ar gyfer swydd bwrpasol i yrru ein mentrau Amddiffyn Plant yn Effeithiol a'r offeryn GCP2 ymlaen.



Lleisiau sy'n Grymuso: Effaith Mind of my Own



Mae Mind of my Own yn offeryn digidol arloesol wedi'i ddylunio i rymuso plant a phobl ifanc drwy roi llais iddynt yn eu gofal a'u cefnogaeth.

Gan ddefnyddio'r ap, mae plant a phobl ifanc yn gallu mynegi eu safbwyntiau, eu teimladau a'u profiadau yn ddiogel, gan sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed a'u hystyried yn y prosesau gwneud penderfyniadau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn cyflwyno'r offeryn hwn ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan ddarparu sesiynau hyfforddiant misol i ymarferwyr, gofalywyr maeth a gofalywyr gwarcheidiaeth arbennig. Mae'r effaith cadarnhaol wedi bod yn amlwg, gyda chynnydd amlwg yn nefnydd yr ap. Mae ymarferwyr yn defnyddio eu cyfrifon yn rhagweithiol gyda'r bobl ifanc, ac rydym hefyd yn gweld pobl ifanc yn defnyddio'r ap yn annibynnol i rannu eu lleisiau pan fydd yn gyfleus iddynt, fel gyda'r nos.

Ym mis Mawrth 2025, bu i gydweithwyr o Mind of my Own ymweld ag ardaloedd amrywiol i rannu gwybodaeth ac annog ymarferwyr a phobl ifanc i groesawu'r offeryn grymusol hwn.

Rhaglen Dysgu er Lles Sir y Fflint

Mae Rhaglen Dysgu er Lles Sir y Fflint yn bartneriaeth rhwng Cyngor Sir y Fflint a nifer o sefydliadau statudol a'r trydydd sector eraill, gan gynnig cyrsiau am ddim i unrhyw un dros 18 oed yn Sir y Fflint sy'n cael trafferth gyda'u lles meddyliol a/neu eu gofalywyr.

Mae'r prosiect parhaus, sydd wedi'i ddarparu gan y Bartneriaeth Ddysgu, yn cefnogi unigolion o ran cyflawni eu canlyniadau lles meddyliol trwy gyrsiau mynediad agored sy'n hyrwyddo lles personol

a chymunedol. Mae gan y llyfryn presennol 71 o gyrsiau am ddim ar gael ac yn ystod 2024/25, mae 374 o unigolion wedi mynychu'r cyrsiau hyn. Mae Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl yn parhau i fynd ati i hyrwyddo presenoldeb cyrsiau ac yn darparu cymorth i sicrhau bod unigolion yn gallu eu mynychu.

Dyma dystlythyr gan unigolyn ar sut mae'r Rhaglen Dysgu er Lles wedi cael effaith cadarnhaol ar eu lles.

"Mae gweithgareddau'r llyfryn lles yn fy helpu i deimlo'n llai ynysig, a gan fy mod yn anabl, maent yn fy ngalluogi i ganolbwyntio ar rywbeth arall heblaw am fy mhoen cronig difrifol. Mae gwneud gweithgareddau lles yn tynnu fy sylw oddi ar fy mhoen ac mae eu mynychu yn gwella fy lles a fy iechyd meddwl. Mae pawb yn gyfeillgar ac yn groesawgar yn y grwpiau ac mae'r staff yn eich cefnogi chi i deimlo'n gyfforddus."

Am fwy o wybodaeth am Raglen Dysgu er Lles Sir y Fflint [cliciwch yma](#).



Gwasanaethau Darparwyr

Cartrefi Preswyl Mewnol a Chynlluniau Gofal Ychwanegol

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu tri chartref preswyl a phedwar cynllun gofal ychwanegol, gan gynnig gofal o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae eu gwasanaethau yn ceisio adeiladu gwydnwch emosiynol a chorfforol, gwella lles, hyrwyddo annibyniaeth ac atal arwahanrwydd cymdeithasol.

Drwy gydol y flwyddyn, mae gweithgareddau a digwyddiadau amrywiol yn cael eu trefnu i hyrwyddo lles preswylwyr a thenantiaid, gwella perthnasoedd a chefnogi cyfranogiad cymunedol. Eleni, roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau codi arian elusenol i Drafnidiaeth Gymunedol y Gororau, Caffi Dementia/Oed Treffynnon a Chanser y Fron, yn ogystal â dathliadau ar gyfer D Day, Diwrnod VE a Dydd y Cofio. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd partïon haf, y Nadolig a phen-blwydd, ynghyd â gweithgareddau rheolaidd fel garddio, tennis cadair, bowlio carped, bingo, cwisiau, carïoci ac amryw o deithiau.

Mae ysgolion lleol yn ymweld â'r cartrefi a'r tai gofal ychwanegol yn rheolaidd i chwarae gemau, gwneud crefftiau a thrafod profiadau a hanes lleol, y mae pawb yn ei fwynhau. Mae bandiau, cantorion ac ysgolion yn perfformio i breswylwyr a thenantiaid drwy gydol y flwyddyn a ffurfiodd denantiaid Plas Yr Ywen gôr a wnaeth ganu carolau dros y Nadolig. Bu i staff yn Marleyfield ymgymryd â phrosiect creadigol gan ddefnyddio cerddoriaeth ac ysgrifennu caneuon i wella iechyd a lles, hybu hyder, a hyrwyddo adeiladu tîm. Bu iddynt gydweithio â cherddorion i recordio CD yn ogystal â pherfformio i'r preswylwyr.

Mae preswylwyr y cartrefi gofal yn canmol eu profiadau'n fawr iawn. Dyma rhai dyfyniadau o'r ymgysylltiadau diweddar:

“Mae'r staff yn wybodus iawn, rwy'n poeni ond maent bob amser yn tawelu fy meddwl.”

“Rwy'n hoffi bod yma, nid oeddwn yn meddwl y byddwn i'n ei hoffi pan wnes i symud i mewn ond mae'n iawn.”

“Hoffwn fynd allan fwy, ond mae'r cartref yn gwneud cymaint ac mae hynny'n helpu.”

“Os byddai pob cartref gofal fel yr un y mae fy mam yn ei fynychu byddai'r byd yn le gwell.”

Bu i denantiaid a theuluoedd gofal ychwanegol ganmol y cynlluniau, gan nodi'r canlynol:

“Rwyf wrth fy modd yn cael coffi a sgwrs gyda fy ffrindiau.”

“Mae'r staff wastad yma a does dim byd yn ormod o drafferth iddynt.”

“Mae gwybod bod mam yn ddiogel ac yn byw mewn lle mor hyfryd yn helpu'r teulu.”

“Roedd gennyf broblem gyda fy anfoneb a gafodd ei ddatrys yn syth gan y rheolwr heb unrhyw broblemau.”



Marleyfield – Cyflawni

Cafodd yr uned a adeiladwyd yn bwrpasol, Cyflawni, ei datblygu'n benodol fel rhan o estyniad Cartref Gofal Marleyfield i gefnogi annibyniaeth ac ailalluogi a gweithrediad D2RA (Rhyddhau i Adfer ac Asesu). Mae D2RA yn cefnogi cleifion wedi iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty i dderbyn cefnogaeth therapi ddwys er mwyn eu galluogi i hybu eu hannibyniaeth cyn dychwelyd adref.

Dyma rai astudiaethau achos sy'n dangos y gwaith cadarnhaol a wnaed gan y tîm:

Astudiaeth Achos – D2RA

Daeth Mrs A i'r Uned Cyflawni ar ôl cael codwm a wnaeth leihau ei symudedd, ac ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty, cytunodd i gael ei rhyddhau i'r uned gyda'r bwriad o gymryd rhan mewn ailalluogi ac asesiad. Ar ôl pedair wythnos o ailalluogi i adennill ei hannibyniaeth a'i sgiliau, mae Mrs A wedi gallu dychwelyd adref heb unrhyw ofal neu gefnogaeth. Mae Mrs A wedi cael ei chefnogi i ail-ddysgu sgiliau fel cymryd meddyginiaeth ei hun ac arferion grisiau a symudedd, i'w galluogi i ddychwelyd adref yn ddiogel heb yr angen am ofal a chymorth.

Astudiaeth Achos – D2RA

Daeth Mr C i'r Uned Cyflawni ar ôl cael codwm lle y bu iddo dorri ei glun. Cafodd lawfeddygaeth ac roedd yn rhaid iddo fynd i'r Uned Gofal Ddwys am ei fod yn wael iawn ar ôl ei lawdriniaeth. Treuliodd Mr C rywfaint o amser yn yr ysbyty yn cymryd rhan mewn ailalluogi ac roedd yn ymgysylltu ac yn awyddus i ddatblygu. Cytunodd Mr C i ddod i Cyflawni am asesiad ac ailalluogi pellach i benderfynu ar ei anghenion, nodau a chanlyniadau hirdymor. Aeth Mr C o fod angen cymorth dau aelod o staff a Sara Steady i ddychwelyd adref gyda ailalluogi pedair gwaith y dydd, ac yn gallu camu o gwmpas, trosglwyddo a symud pellteroedd byr. Roedd Mr C yn gallu parhau â'i daith ailalluogi.

Byw â Chymorth

Mae'r Gwasanaeth Byw â Chymorth yn helpu pobl ag anableddau dysgu mewn 17 o gartrefi byw â chymorth ar draws Sir y Fflint. Mae'r tîm yn helpu unigolion i hyrwyddo annibyniaeth yn eu bywydau bob dydd a chyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Maent hefyd yn trefnu gweithgareddau a theithiau dydd, fel ymweliadau i Sw Gaer a phartïon Nadolig.

Dyma rhai enghreifftiau o unigolion yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau:

Astudiaeth Achos – Byw â Chymorth

Rydym yn cefnogi un unigolyn sy'n gefnogwr brwd tîm pêl-droed Everton a oedd eisiau ymweld â'r stadiwm newydd. Bu i'r tîm gefnogi'r unigolyn i fynd ar y fferi a gweld y stadiwm newydd nad yw wedi agor eto. Mae'r unigolyn hefyd wedi cael ei gefnogi i fynd i Lerpwl i ymweld â Siop Everton, yn ogystal â mynd i weld y Cavern Club a'r Beatles gan mai ei ail angerdd yw cerddoriaeth.

Astudiaeth Achos – Byw â Chymorth

Mae gennym unigolion sy'n gyd-denantiaid ac sydd wrth eu bodd yn mynd i'r Tatŵ yng Nghaeredin. Bu iddynt ei fynychu ym mis Awst 2024 gyda chymorth y tîm, yn ogystal ag ymweld â Sw Caeredin ac maent wedi archebu tocynnau i fynd eto ym mis Awst 2025.

Gofal Cartref

Mae ein gwasanaeth gofal cartref mewnol wedi llwyddo i gynnal ei gapasiti trwy gydol y flwyddyn, er gwaethaf y ffaith ei fod yn gweithredu mewn amgylchedd heriol iawn. Mae'r farchnad gofal cartref ehangach wedi bod yn wynebu anawsterau recriwtio dros y pum mlynedd diwethaf, ond drwy ddefnyddio cynllun treigl ar gyfer recriwtio, rydym wedi gallu cynnal ein lefelau staffio. Mae hyn wedi galluogi ein gwasanaeth i barhau i gefnogi unigolion yn effeithiol a rhagweithiol i fodloni eu hanghenion a'u helpu nhw i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Blaenoriaethau 2025/26

- Gweithredu'r model ymarfer 'Amddiffyn Plant yn Effeithiol' sy'n canolbwyntio ar weithio gyda theuluoedd sydd ar y gofrestr amddiffyn plant i gyflwyno newid parhaus.
- Gweithredu'r 'Proffil Gofal Graddedig 2' i gefnogi teuluoedd i newid i atal a rheoli a lleihau esgeuluso plant yn ddiogel.
- Prosiectau Byw â Chymorth o'r Maint Cywir i bobl ag anableddau dysgu i gefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol ac i hyrwyddo'r model dilyniant.
- Datblygu cyfleoedd dydd ystyrlon trwy gymorth cymunedol i bobl hŷn.
- Adolygu Canolfannau'r Blynyddoedd Cynnar a Theuluoedd i wneud y mwyaf o fannau cymunedol a'r awdurdod lleol.

Adran 5



Gwybodaeth Arall

Arolygon ac Adolygiadau

Cartref Gofal Preswyl Croes Atti

Mae Croes Atti yn gartref gofal preswyl yn y Fflint sy'n cael ei redeg gan yr Awdurdod Lleol. Derbyniodd y cartref arolwg ar 21 Hydref 2024.

Bu i'r arolygwyr grynhoi eu canfyddiadau fel a ganlyn:

Mae pobl yn hapus iawn â'r cymorth y maent yn ei dderbyn yng Nghroes Atti. Mae pobl yn cael eu cefnogi gan staff caredig, gofalgar a gwybodus sy'n eu hadnabod nhw'n dda. Mae staff gofal yn rhoi sicrwydd a rhyngweithiad cadarnhaol yn rheolaidd. Mae pobl yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau am eu bywydau bob dydd ac mae eu cynlluniau personol yn canolbwyntio'n fawr ar yr unigolyn, yn fanwl, yn adlewyrchu anghenion unigolion ac yn cael eu hadolygu a'u newid yn unol â hynny. Mae gweithgareddau yn cael eu hwyluso gan staff o fewn y gwasanaeth.

Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwyr ac yn cael cynnig hyfforddiant i fodloni anghenion unigolion. Mae trefniadau llywodraethu da ar waith ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd i oruchwyllo ei reolaeth a chael barn pobl a pherthnasau i helpu i wella a datblygu'r gwasanaeth. Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mae'r gwasanaeth yn gweithredu yn unol â'r datganiad o bwrpas.

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar [wefan AGC](#).



Woodlee

Mae Woodlee yn gartref gofal seibiant tymor byr i oedolion ag anableddau dysgu ym Mwcle. Cafodd Woodlee arolygiad ar 19 Ebrill 2024.

Bu i'r arolygwyr grynhoi eu canfyddiadau fel a ganlyn:

Mae Woodlee yn darparu gwasanaeth gofal tymor byr, gan gynnig gofal seibiant i bobl a'u gofalwyr. Mae pobl yn edrych ymlaen at eu hymweliadau, a gall eu perthnasau gael sicrwydd y byddant yn cael digon o gefnogaeth. Gall pobl gynnal eu harferion arferol yn ystod eu harhosiad. Gallant ddisgwyl amgylchedd cyfeillgar a chroesawgar. Mae staff cymorth yn paratoi ar gyfer ymweliad pob unigolyn, gan sicrhau eu bod yn derbyn croeso cynnes. Mae staff gofal yn adnabod pobl yn dda ac yn darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r adeilad yn gyfforddus ac yn gartrefol. Mae yno ddigon o le ac mae digon o offer arbenigol ar gael, mae hyn yn ei wneud yn cwbl hygyrch i bobl â phroblemau symudedd. Mae gardd gyfforddus y gellir cael mynediad ati trwy ddrysau patio, sy'n cynnwys plannwr sydd wedi'i gomisiynu'n arbennig a'i wneud gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae rheolwyr yn ymweld yn rheolaidd i siarad â phobl, cefnogi staff ac adolygu'r gwasanaeth, mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis.

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar [wefan AGC](#).

Cartref Gofal Marleyfield

Mae Marleyfield yn gartref gofal preswyl ym Mwcle sy'n cael ei redeg gan yr Awdurdod Lleol. Cafodd y cartref arolygiad ar 5 Chwefror 2025.

Bu i'r arolygwyr grynhoi eu canfyddiadau fel a ganlyn:

Mae pobl yn hapus yn byw ym Marleyfield. Maent yn gwerthfawrogi'r dewisiadau sydd ganddynt dros eu harferion bob dydd, eu bwyd,

yr adloniant a chymryd rhan yn y nifer o weithgareddau sy'n cael eu trefnu. Maent hefyd yn canmol y staff am eu caredigrwydd a'u parodrwydd i fynd y filltir ychwanegol ac yn eu hystyried mor agos â theulu.

Mae cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr hyn y mae pobl eisiau ei gyflawni yn y cartref ac yn darparu gwybodaeth fanwl am bwy ydynt a'r hyn sy'n bwysig iddynt, felly mae'r staff yn eu hadnabod yn dda. Mae rhan wreiddiol a hŷn y cartref yn gyfforddus iawn, gan ddarparu nifer o gabanau cartrefol a mannau cymunedol eraill i eistedd. Mae rhan fwy newydd y cartref yn cynnig digon o le fel bod pobl sy'n defnyddio offer symudedd yn gallu symud o gwmpas yn haws. Mae lolfeydd ac ardaloedd bwyta mawr fel bod pobl yn gallu cymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill yn y cartref.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda gyda dau reolwr cynorthwyol i gefnogi'r rheolwr a'r tîm o staff gofal hyfforddedig a phrofiadol, y mae llawer ohonynt wedi bod yn gweithio yn y cartref ers sawl blwyddyn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth i wirio ei fod yn gweithredu'n esmwyth a bod pobl yn hapus a'r gofal sy'n cael ei ddarparu. Maent yn gwybod beth sy'n gweithio'n dda a lle gellir gwneud gwelliannau.

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar [wefan AGC](#).

Hafod

Mae Hafod yn gartref gofal seibiant tymor byr i oedolion ag anableddau dysgu yn yr Wyddgrug. Cafodd Hafod ei arolygu ar 3 Mawrth 2025.

Bu i'r arolygwyr grynhoi eu canfyddiadau fel a ganlyn:

Mae Hafod yn wasanaeth seibiant byr sy'n galluogi pobl i fwynhau arhosiad o'r cartref, ac i ofalwyr gael seibiant o'u darpariaeth gofal o ddydd i ddydd. Mae pobl yn edrych ymlaen at aros yn y gwasanaeth

a dywedodd gofalmwr wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Mae ganddynt hyder bod y gwasanaeth yn bodloni anghenion unigolion, sy'n eu galluogi nhw i gael amser i ymlacio.

Mae staff cymorth yn adnabod y bobl yn dda ac yn mwynhau eu rolau o ran cefnogi amrywiaeth o wahanol bobl.

Maent yn sicrhau bod pobl yn teimlo fel eu bod wedi ymlacio ac yn gyfforddus yn ystod eu harhosiad ac yn cael cymryd rhan yn y gweithgareddau y maent wedi'i ddewis. Mae pobl yn gallu cael eu cefnogi i gynnal eu gweithgareddau cymunedol arferol neu gael seibiant o'u harferion. Mae yno gerbyd hygyrch sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer mynd ar deithiau allan.

Mae gan y rheolwr a'r dirprwy reolwr systemau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth. Maent yn cwblhau ymweliadau archwilio misol i'r gwasanaeth ac yn cefnogi staff trwy gyfarfodydd tîm rheolaidd. Mae staff cymorth yn eu gweld yn hawdd mynd atynt ac yn hyderus i leisio unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar [wefan AGC](#).

Ymchwiliad ar ei Liwt ei Hun Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i Wasanaethau Gofalmwr

Dros y 18 mis diwethaf, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi bod yn ymchwilio i wasanaethau gofalmwr di-dâl yng Nghymru o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Mae hyn yn galluogi i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gynnal ymchwiliadau y tu hwnt i gwynion unigol.

Dechreuodd yr ymchwiliad gydag ymgynghoriad agored ar wasanaethau gofalmwr, gan dderbyn 76 o ymatebion, gyda bron hanner ohonynt yn dod gan ofalmwr di-dâl. Bu i Gynghorau Sir y Fflint, Caerffili, Ceredigion a Chastell-nedd Port Talbot gymryd rhan yn yr ymchwiliad.

Bu i'r adroddiad terfynol, a gyhoeddwyd ar 31 Hydref, nodi y gall gofalmwr fynegi ystod eang o anghenion cymorth, ac fe wnaeth y pedwar Cyngor asesu a nodi anghenion cymorth gofalmwr oedolion yn effeithiol. Bu i'r adroddiad dynnu sylw at arferion da yn Sir y Fflint, gan alinio gyda'n canfyddiadau adolygu mewnol.

Mae'r argymhellion allweddol ar gyfer Sir y Fflint yn cynnwys:

- Diwygio'r ffurflen Asesiad o Anghenion Gofalmwr.
- Adolygu taflen ffeithiau a llythyr templed yr Asesiad o Anghenion Gofalmwr.
- Darparu hyfforddiant pellach i staff Un Pwynt Mynediad ar hawliau ac anghenion gofalmwr.
- Cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff ehangach y Cyngor.
- Adolygu casglu data cydraddoldeb i ofalmwr.
- Gwellu cydweithrediad â gwasanaethau ieuchyd.
- Ailymweld â phrosesau taliadau uniongyrchol i ofalmwr.

Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion wedi cael sylw heb arwain at oblygiadau adnoddau sylweddol. Mae'r Ombwdsmon wedi gwahodd awdurdodau lleol eraill Cymru i adolygu eu gwasanaethau gofalmwr yn seiliedig ar yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar wefan yr [Ombwdsmon](#).

Archwiliad Gwerthuso Perfformiad Gwasanaethau Oedolion a Phlant

Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd AGC Archwiliad Gwerthuso Perfformiad llawn, arferol o Wasanaethau Oedolion a Phlant Sir y Fflint. Pwrpas yr archwiliad hwn oedd adolygu perfformiad yr awdurdod lleol mewn ymarfer ei ddyletswyddau a swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â deddfwriaeth, wedi'i alinio o dan egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – (Pobl - llais a rheolaeth, Atal, Lles, Partneriaethau).

Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar:

- Gwerthuso profiadau oedolion a phlant ar adeg yr archwiliad gwerthuso perfformiad.
- Gwerthuso profiad a'r canlyniadau y mae pobl yn eu cyflawni trwy eu cyswllt â gwasanaethau.
- Tystiolaeth bod yr awdurdod lleol a phartneriaid wedi dysgu gwersi o'u profiadau diweddar a'u cynlluniau ar gyfer gwella a datblygu'r gwasanaeth.
- Ystyriaethau ar sut mae'r awdurdod lleol yn rheoli cyfleoedd a risg wrth gynllunio a darparu gofal cymdeithasol ar lefel unigol, gweithredol a strategol.

Hwn oedd archwiliad llawn cyntaf Sir y Fflint mewn dros wyth mlynedd ac roedd yn rhoi cyfle i arddangos ein harferion creadigol ac arloesol. Roedd yr adroddiad, a gyhoeddwyd ar 22 Chwefror 2024, yn gadarnhaol yn bennaf. Cafodd cynllun gweithredu ei greu yn seiliedig ar argymhellion yr arolygwyr ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud tuag at gyflawni'r amcanion, gyda llawer ohonynt wedi'u cwblhau. Mae'r ychydig o gamau gweithredu sy'n weddill yn amcanion tymor hir sydd yn mynd rhagddynt ac sydd ar y trywydd iawn ar gyfer eu cwblhau, yn cynnwys gweithredu system gwybodaeth newydd i gleientiaid. Mae'r caffael ar gyfer hwn bellach wedi'i gwblhau a bydd y system newydd yn cael ei weithredu yn 2026.

Cwynion a Sylwadau

Cwynion a sylwadau rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025

Mae gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint, fel y'i cymeradwywyd gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor, weithdrefn gwynion gadarn ar waith. Rydym yn croesawu cwynion

ac eisiau sicrhau bod unigolion, gofalgwyr a theuluoedd yn teimlo bod ganddyn nhw lais, bod eu safbwyntiau yn cael eu gweithredu a'u bod yn derbyn ymateb prydlon ac agored. Rydym yn gweithio'n galed i ddatrys problemau cyn gynted ag y maent yn codi, ac mae eiriolaeth yn cael ei hyrwyddo'n weithredol. Mae unigolion yn cael eu cefnogi i gwyno drwy Llais, Corff Llais y Dinesydd ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.

Yn 2024/25 bu i ni dderbyn 68 o gwynion yn ymwneud â Gwasanaethau Oedolion a 50 o gwynion yn ymwneud â Gwasanaethau Plant, gyda chyfanswm o saith cwyn yn datblygu i gam 2. Mae'r cynnydd hwn mewn cwynion yn adlewyrchu'r heriau a wynebwyd ar draws y sector gofal cymdeithasol a'r effaith ar unigolion a theuluoedd. Rydym yn parhau i ymdrechu i ddarparu'r cyngor, gofal a chymorth gorau posibl, datrys problemau pan maent yn codi a chywiro unrhyw faterion lle mae ein cyfranogiad wedi disgyn o dan y safonau yr ydym yn gosod i'n hunain.

O ystyried yr ystod a'r mathau o wasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r cwynion yn eang o ran eu themâu ond gellir eu categoreiddio fel a ganlyn:

- **Urddas** - Lle mae pryderon am ofal personol ac ymddangosiad unigolyn a'r effeithiau posibl y gall unrhyw ddiffygion ei gael ar yr unigolyn hwnnw.
- **Cyfathrebu** - Y ffordd yr ydym yn cadw unigolion a theuluoedd yn rhan o'n gwaith a'r ffordd y maent yn cael eu hysbysu a'u diweddarau amdano.
- **Ansawdd Gofal** - Problemau yn ymwneud â gofal unigolyn, boed yn ofal preswyl, gofal cartref, gofal seibiant neu ofal maeth.
- **Prydlondeb** - Ein proses o wneud penderfyniadau yn nhermau cynnig a darparu gofal a chymorth, a hyd yr amser y mae'n ei gymryd i ddod o hyd i becynnau gofal.

- **Anghytundebau** - Pan mae unigolion a theuluoedd yn herio neu'n apelio ein penderfyniadau neu'n cyfranogiad, neu pan maent yn credu bod diffyg gweithredu ynghylch y materion y maent yn eu codi.
- **Newidiadau Ariannol** - Anghydfod yn ymwneud â sut ydym wedi dod i benderfyniadau ynghylch codi ffioedd am ofal a chymorth, a'r symiau a ofynnwyd.
- **Proses** - Lle nad ydym wedi cadw at y broses, neu lle mae gwbyodaeth bwysig ar goll yn ein gwaith papur.
- **Staff** - Lle mae ein cyfranogiad neu'n rhyngweithiadau wedi cael eu camddeall, neu lle codwyd cwestiynau am ein hymddygiad proffesiynol gyda phobl.
- **Cyswllt** - Materion yn ymwneud a threfniadau cyswllt plant a theuluoedd yn ôl gorchymyn y Lllys.

Mae cwynion yn ymwneud â Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion fel arfer yn cael eu gwneud gan frodyr neu chwiorydd sy'n oedolion yr unigolyn sy'n derbyn gofal a chymorth. Tra bod cwynion yn ymwneud â Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant yn bennaf yn cael eu gwneud gan rieni y mae eu plant yn blant sy'n derbyn gofal neu gan rieni plant sy'n derbyn gofal a chymorth. Mae cwynion yn cael eu cyflwyno dros e-bost yn bennaf. Nid yw cwynion a gofnodwyd yn gysylltiedig â nodwedd warchodedig, gan fod gwbyodaeth am yr achwynydd yn gyfyngedig. Mae ein pwyslais ar wrando ar eu profiadau a'r hyn a allai fod wedi mynd o'i le, a gwneud iawn lle bo'n briodol mewn modd prydlon.

Mae'r holl gwynion a wnaed yn cael eu harchwilio a'u defnyddio i wella gwasanaethau fel rhan o broses 'gwersi a ddysgwyd'. Yn nhermau dysgu, rydym wedi:

- Adolygu'r broses ar gyfer anfon biliau i unigolion mewn gofal tymor byr ac yn y dyfodol bydd y biliau yn cael eu hanfon i'r cartref preswyl os nad oes neb wedi'u hadnabod ar ein system fel rhywun i ofalu

am arian.

- Adolygu'r llythyr yr ydym yn ei anfon at unigolion lle mae problem yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol, fel nad yw'n dod drosodd yn heriol nac yn fygythiol. Ni fyddwn yn anfon gohebiaeth o'r fath i unigolion os yw'r unigolyn cyswllt dan sylw yn mynd ar wyliau yn fuan wedyn.
- Byddwn yn cyfrifo unrhyw daliadau uniongyrchol sydd heb eu gwario gan unigolion sy'n cyflogi cynorthwyr personol mewn ffordd wahanol i sicrhau bod eu holl dreuliau fel cyflogwr yn cael eu hystyried.
- Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar broses i sicrhau bod debydau/credydau uniongyrchol i gyfrifon taliadau uniongyrchol yn dod i ben ar unwaith os yw taliad uniongyrchol yn cael ei stopio.
- Bu i ni atgoffa rheolwyr a staff bod yn rhaid cofnodi penderfyniadau a thrafodaethau achos perthnasol ar y system gwbyodaeth cleientiaid, wrth drafod symudiadau lleoliad posibl i blentyn/unigolyn ifanc.

Yn nhermau'r weithdrefn gwynion statudol a'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Comisiwn Hawliau Dynol, 'Herio penderfyniadau gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru a Lloegr':

- Mae gwbyodaeth cwynion ar gael yn ddwyieithog, yn cynnwys ar-lein a chopi caled, a gellir gwneud addasiadau mewn fformatau eraill.
- Mae gwbyodaeth cwynion yn cyfeirio at sefydliadau cenedlaethol a lleol y gellir cysylltu â nhw am gyngor a chymorth pellach.

Mae adroddiadau cwynion a chanmoliaeth blynyddol y Cyngor yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac lechyd ym mis Medi ar ôl diwedd y flwyddyn adrodd. Mae adroddiadau a chofnodion ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar [wefan Sir y Fflint](#).

Cyfeirio at Ffynonellau Eraill o Wybodaeth

Cael Gafael ar Fwy o Wybodaeth a Dogfennau Pwysig

Dolenni i Ddeddfwriaeth a Gwybodaeth am Ofal Cymdeithasol:

[Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)

[Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016](#)

[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#)

[Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru](#)

[Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru](#)

[Rheoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol: Gwasanaethau Gofal Plant a Chwarae](#)

[Deddf Gofal Plant](#)

Strategaethau Allweddol Cyngor Sir y Fflint

[Cyngor Sir y Fflint - Cynllun y Cyngor](#)

[Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint - Cynllun Llesiant](#)

[Strategaeth Ddigidol](#)

[Strategaeth Newid Hinsawdd](#)



Adran 6



Atodiadau

Rhestr Termau

Eiriolaeth

Mae eiriolwyr mewn gofal cymdeithasol yn annibynnol o'r awdurdod lleol (cyngor lleol) a'r GIG. Maent wedi cael eu hyfforddi i helpu pobl i ddeall eu hawliau, mynegi eu barn a'u dyheadau, a helpu i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu clywed.

Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy

Gweithiwr proffesiynol hyfforddedig sy'n cydlynw asesiadau a phenderfyniadau yn ymwneud â chadw unigolion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol ac ystyried safbwyntiau meddygol a chymdeithasol.

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn sefydliad arweinyddiaeth proffesiynol a strategol i wasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn cynrychioli barn gyffredin pob un o'r 22 o adrannau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol yng Nghymru.

Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD)

ASD yw'r enw meddygol ar awtistiaeth.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)

Mae BIPBC yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd ar draws chwe sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).

Plant Sydd Wedi Cael Profiad o Ofal

Mae plant sydd wedi cael profiad o ofal yn derm ymbarél a all olygu plant / pobl ifanc sydd:

- Yn derbyn gofal gartref trwy Orchymyn Gofal
- Yn derbyn gofal o'r cartref mewn cartref preswyl i blant, mewn lleoliad maeth neu mewn lleoliad gofal gan berthynas (Yn Derbyn Gofal neu Ddim yn Derbyn Gofal).
- Wedi derbyn gofal yn flaenorol, lle ar ryw bwynt yn eu bywydau maent wedi cael unrhyw un o'r profiadau uchod:
Efallai nad yw'r plentyn / unigolyn ifanc erioed wedi derbyn gofal yn ffurfiol.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Arolygiaeth Gofal Cymru yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn cofrestru, arolygu a chymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau lles pobl Cymru.

Rhai sy'n Gadael Gofal

Yng Nghymru, mae'r rhai sy'n gadael gofal yn unigolion sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol am o leiaf 13 wythnos ers iddynt fod yn 14 oed ac wedi gadael gofal ar neu ar ôl eu pen-blwydd yn 16 oed. Bwriedir i'r gefnogaeth a ddarperir i'r rhai sy'n gadael gofal fod yn gyfwerth â'r hyn y gallai plentyn nad yw wedi derbyn gofal ei ddisgwyl yn rhesymol gan ei rieni.

Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae plentyn dan ofal awdurdod lleol os bydd llys wedi rhoi Gorchymyn Gofal i leoli plentyn mewn gofal, neu bod adran Gwasanaethau Plant y Cyngor wedi gofalu am y plentyn am fwy na 24 awr.

Cwmpas

Mae Cwmpas yn asiantaeth datblygu yng Nghymru sy'n gweithio

dros newid cymdeithasol ac economaidd cadarnhaol. Maent yn canolbwyntio ar greu economi mwy teg a gwyrdd, gwella cyfiawnder cymdeithasol a hyrwyddo cynhwysiant digidol.

Taliadau Uniongyrchol

Mae taliadau uniongyrchol yn arian gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint sydd ar gael i bobl cymwys i'w galluogi nhw i drefnu cymorth a datrysiadau sy'n helpu i fodloni anghenion gofal cymdeithasol wedi'u hasesu a chanlyniadau lles a gytunwyd arnynt.

Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA)

Mae D2RA yn cefnogi cleifion wedi iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty i dderbyn cefnogaeth therapi ddwys er mwyn eu galluogi i hybu eu hannibyniaeth cyn dychwelyd adref.

Rhaglen Braenaru'r Blynnyddoedd Cynnar

Er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn y dechrau gorau mewn bywyd, gweithio tuag at lwybrau di-dor sy'n creu system gydgysylltiedig ac ymatebol sydd ag anghenion unigryw pob plentyn yn ganolog iddo.

Gofal Ychwanegol

Tai wedi'u dylunio gan roi ystyriaeth i anghenion defnyddwyr gwasanaeth, sy'n darparu amrywiol lefelau o gymorth sydd ar gael ar y safle ac yn hybu byw'n annibynnol.

Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint

Y sefydliad ymbarél a chymorth ar gyfer dros 1,200 o grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint.

Hft

Mae Hft yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu i fyw gyda mwy o annibyniaeth a dewis ar draws ardal Sir y Fflint. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi comisiynu Hft i ddarparu gwasanaethau dydd a chyfleoedd gwaith i bobl ag anableddau dysgu yn y sir.

Gofal Cartref

Mae gofal cartref, a elwir hefyd yn “gofal yn y cartref”, yn cyfeirio at ystod eang o wasanaethau gofal a ddarperir yng nghartref unigolyn. Gall gynnwys cymorth gyda byw o ddydd i ddydd a materion gofal iechyd penodol.

Y Gronfa Tai â Gofal

Mae cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru ar gael i ddarparu tai a llety i bobl ag anghenion gofal a chymorth.

Y Grant Cymorth Tai

Cyllid Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol i’w wario ar brosiectau sydd wedi’u hanelu at atal digartrefedd a helpu pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain neu mewn tai â chymorth.

Cronfa Cyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF)

Mae IRCF iechyd a Gofal Cymdeithasol yn rhaglen a sefydlwyd i gefnogi ymrwymadau’r Rhaglen Lywodraethu yn uniongyrchol i ddatblygu 50 o ganolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig a chefnogi ailgydbwyso’r farchnad gofal preswyl.

Menter Iaith Fflint a Wrecsam

Cefnogi a hyrwyddo’r Gymraeg yn Sir y Fflint a Wrecsam.

Mwy Na Geiriau

Mae Mwy Na Geiriau yn strategaeth a chynllun cyflawni sy’n ceisio gwella’r ansawdd gofal i unigolion sy’n byw mewn gwlad ddwyieithog.

Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS)

NEWCIS yw un o’r darparwyr gwasanaethau gofalwyr mwyaf yng Nghymru.

Gwasanaeth Offer Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCES)

Mae NEWCES yn darparu offer cymunedol hanfodol i gefnogi annibyniaeth pobl ag anableddau ar draws Gogledd Ddwyrain Cymru.

Prosiect Trawsnewid Anabledd Dysgu Gogledd Cymru (Prosiect Trawsnewid AD GC)

Gogledd Cymru Gyda’n Gilydd: Gwasanaethau Di-dor i Bobl ag Anableddau Dysgu yw un o bedwar prosiect trawsnewid yng Ngogledd Cymru ac fe’i gelwir hefyd yn Brosiect Trawsnewid AD.

Therapydd Galwedigaethol

Gweithiwr proffesiynol sy’n cefnogi unigolion i wella eu gallu i fyw yn annibynnol trwy asesiadau, ymyriadau wedi’u teilwra, addasiadau amgylcheddol, a chydweithio â darparwyr gofal eraill.

Fframwaith Gwella Perfformiad

Mae’r Fframwaith Perfformiad a Gwella wedi’i ddylunio i gefnogi awdurdodau lleol i ddangos eu cynnydd yn erbyn y safonau ansawdd, ac i lywio penderfyniadau ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol ac ar lefel sefydliadol, gorfforaethol.

Atal ac Ymyrraeth Gynnar

Mae atal ac ymyrraeth gynnar yn ddulliau o gymorth gyda’r nod o wella canlyniadau i bobl neu atal anghenion neu risgiau rhag gwaethygu. Cyfeirir atynt weithiau fel cymorth cynnar neu wasanaethau ataliol.

Ailalluogi

Mae ailalluogi yn fath o ofal sy’n helpu pobl i ailddysgu sut i wneud gweithgareddau bob dydd, fel coginio prydau bwyd ac ymolchi. Caiff ei ddarparu gan awdurdodau lleol gyda’r nod o liniaru’r angen am ofal a chymorth hirdymor.

Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF)

Mae'r Gronfa Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn rhaglen 5 mlynedd gan Lywodraeth Cymru rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2027 i helpu i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Sefydlwyd BPRh Gogledd Cymru fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i wella llesiant y boblogaeth a gwella sut mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu. Mae'r BPRh yn dod â gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai, y trydydd sector a phartneriaid eraill ynghyd i gydlynw'r broses barhaus o drawsnewid ac integreiddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar draws y rhanbarth.

Cartref Gofal Preswyl / Cartref Nyrsio

Mae cartref gofal preswyl yn darparu llety a gofal a chymorth personol 24 awr y dydd i bobl a all ei gweld yn anodd rheoli bywyd o ddydd i ddydd gartref. Mae cartref gofal preswyl a chartref nyrsio yn darparu gofal a chymorth 24 awr y dydd, fodd bynnag, y prif wahaniaeth yw bod cartref nyrsio yn gallu darparu lefel uwch o ofal. Mae gan gartrefi nyrsio nyrsys cymwysedig ar y safle trwy'r amser i ddarparu gofal meddygol yn ôl yr angen, lle mae cartrefi preswyl yn helpu pobl gyda gofal personol ac yn eu cefnogi i ymgysylltu mewn gweithgarwch corfforol.

Diogelu

Mae diogelu'n ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion rhag camdriniaeth neu esgeulustod ac addysgu'r bobl o'u hamgylch i adnabod yr arwyddion a'r peryglon.

Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (GGA)

Mae Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn rhoi cyfrifoldeb rhiant dros blentyn i rywun heblaw rhieni'r plentyn neu unigolyn arall sydd â chyfrifoldeb rhiant.

Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)

GCC yw'r rheoleiddiwr gweithlu. Fel rhan o hyn maent yn cofrestru ac yn gosod safonau ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth ac yn datblygu'r gweithlu. Mae gan GCC hefyd gylch gwaith gwella, lle byddant yn rhannu arfer da, gosod blaenoriaethau ar gyfer ymchwil ac yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd a sefydliadau eraill.

Byw â Chymorth

Mae llety byw â chymorth yn fath o dai sy'n darparu gofal personol, cymorth neu oruchwyliaeth i helpu pobl i fyw yn annibynnol. Mae'r gofal a'r cymorth ar wahân i'r contract tai. Gellir rhannu'r llety neu gall fod yn llety sengl, gan ddibynnu ar anghenion a hoffterau'r preswylwyr.

Gofalwr Di-dâl

Mae gofalwr di-dâl yn rhywun sy'n darparu gofal a chymorth i aelodau teulu, ffrindiau neu gymdogion sydd wedi'u heffeithio gan anabledd, iechyd corfforol gwael, salwch meddwl, bregusrwydd neu gamddefnyddio sylweddau. Nid oes angen i'r gofalwr fod yn byw â'r unigolyn y mae'n gofalu amdano.

Gofalwr Ifanc

Mae gofalwr ifanc yn ofalwr di-dâl hyd at 18 oed. Efallai eu bod yn darparu gofal a chymorth i rieni, brodyr a chwiorydd neu aelodau eraill o'r teulu.

Crynodeb o Flaenoriaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2025/26

Pobl

- Cyflwyno ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau gyda chefnogwyr mentoriaid ymarfer i gefnogi ein dull cydweithredol o weithio gyda phobl.
- Canolbwyntio ar recriwtio, datblygu, cadw a chynllunio olyniaeth ar gyfer ein gweithlu.
- Darparu ein cynlluniau i fod yn 'ddigidol yn ddiofyn' a cheisio dileu systemau papur a gwella sgiliau digidol y gweithlu.
- Ymchwilio i sut all Deallusrwydd Artiffisial gefnogi ymarfer ac ategu gofal a chymorth.
- Datblygu'r system gwybodaeth i gleientiaid Mosaic.

Atal

- Adnewyddu ein gwefan i ddarparu gwybodaeth glir ac atgyfeirio.
- Adolygu a gwella ein hymateb cyntaf trwy ein gwasanaethau Un Pwynt Mynediad a Chyswllt Cyntaf a'r Blynnyddoedd Cynnar, gan sicrhau eu bod yn darparu cymorth cychwynnol effeithiol ac ymatebol yn cynnwys Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.
- Hyrwyddo'r defnydd o 'Stori'r Ymennydd Rhydychen' a deall gwyddoniaeth yr ymennydd a phrofiadau niweidiol a chadarnhaol ar y plentyn sy'n datblygu.
- Gweithio gyda NEWCIS i wneud y mwyaf o wybodaeth, cyngor a chymorth prydlon i ofalwyr.

- Ehangu ein gwasanaeth ailalluogi i gynyddu nifer y bobl y gellir eu cefnogi.
- Cefnogi datblygiad pellach ein gwaith adolygu ac ailasesu mewnol, gan hyrwyddo'r model dilyniant ar draws yr holl wasanaethau i oedolion.
- Cefnogi pobl ifanc i symud o ofal preswyl cost uchel ac ymestyn maethu mewnol.
- Peilota'r model MST-CAN (Therapi Aml-Systemig Cam-drin ac Esgeuluso Plant) i sicrhau newid lle mae esgeulustod a chamddefnyddio sylweddau yn bresennol, ac adeiladu gwydnwch teuluol i osgoi'r angen i ddod â phlant i'r system ofal yn ddiogel.

Partneriaeth ac Integreiddio

- Datblygu cyfleoedd dydd ystyrlon trwy agor a datblygu Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Coed-y-Ddraig.
- Datblygu gofal preswyl mewnol:
 - o Agor Tŷ Croes Atti a gwelyau ailalluogi.
 - o Nodi nodau datblygu ar gyfer Llys Gwenffrwd.
- Creu cartref gofal preswyl mewnol i blant.
- Peilota model 'asesydd dibynadwy' i gefnogi asesiadau ysbyty a phrosesau rhyddhau o'r ysbyty.
- Creu model rhagolygon i lywio datblygiad gwasanaeth, darpariaeth fewnol a chomisiynu.

- Integreiddio allyriadau carbon sero net i weithgarwch comisiynu.
- Cydweithio a chefnogi darparwyr gofal preswyl a gofal maeth y sector annibynnol i symud i fodelau Nid-er-Elw a rhagnodwyd.
- Datblygu pris teg ar gyfer gofal gan ddefnyddio system / methodoleg Care Cubed.

Lles

- Gweithredu model ymarfer 'Amddiffyn Plant yn Effeithiol' sy'n canolbwyntio ar weithio gyda theuluoedd ar y gofrestr amddiffyn plant i gyflwyno newid parhaus.
- Gweithredu 'Proffil Gofal Graddedig 2' i gefnogi teuluoedd i newid er mwyn atal a rheoli a lleihau esgeuluso plant yn ddiogel.
- Prosiectau Byw â Chymorth o'r maint cywir i bobl ag anabledd dysgu i gefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol a hyrwyddo'r model dilyniant.
- Datblygu cyfleoedd dydd ystyrlon trwy gymorth cymunedol i bobl hŷn.
- Adolygu Canolfannau'r Blynyddoedd Cynnar a Theuluoedd i wneud y mwyaf o fannau cymunedol a'r awdurdod lleol.